Mai 2025

# Y DINESYDD

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 497 £1.50




## Cantorion Ardwyn yn dathlu'r 60 - tud. 5

## Lowri'n mwynhau 'cinio gorau eleni' - tud. 16

## Diwedd y daith i adeilad eiconig - tud. 5

## a llawer mwy



Llun: Wikipedia



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Dr Miranda Morton**

***Golygydd Mehefin***

***Wyn Mears***
Cyfraniadau erbyn **27 Mai** at:
wyn@wynmears.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Golygyddol
## Dr Miranda Morton



Hyfryd oedd darllen hanes Cantorion Ardwyn Caerdydd yn y rhifyn hwn a'i lwyddiant dros 60 o flynyddoedd.

Rwyf innau'n aelod o gôr. Sefydlwyd Côr y Gleision yn 2006 oherwydd y gyfres deledu *Codi canu* ar S4C. Doeddwn i ddim yn aelod o'r cychwyn. Mae'r côr wedi ffynnu ers hynny, gan gystadlu, cynnal cyngherddau a theithio. Yn 2022, fe enillodd Côr y Gleision berfformiad gorau Gŵyl Gorawl Bangor (Beannchar, Gogledd Iwerddon, hynny yw). Yn 2023, fe enillon ni Gôr y Flwyddyn yng Ngŵyl Bournemouth a'r llynedd dod yn drydydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

Ar 29 Ebrill eleni fe wnaeth Côr y Gleision gystadlu yng Ngŵyl Cerdd a Drama Oundle, pentref bach pert nid nepell o Peterborough. Gan gystadlu mewn tair cystadleuaeth, fe ddaethon ni'n ail yn y cystadlaethau SATB a Sioeau Cerdd ac yn gyntaf yn y gystadleuaeth canu cysegredig. I goroni'r cwbl, fe enillon ni y wobr am y perfformiad corawl mwyaf artistig sef Powlen Rosod Weekley a Warkton. Ein her nesaf fydd cystadlu yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ym mis Gorffennaf. Byddwn ni'n trefnu dathliadau pan gyrhaeddwn ein hugain mlwyddiant y flwyddyn nesaf, felly mae mwy byth i ddod.

Mae digonedd o dystiolaeth bod canu ynddo 'i hun yn gwneud byd o les i iechyd rhywun, gan leihau straen, a gwella anadlu ac iechyd yr ysgyfaint. Mae cymryd rhan mewn cerddoriaeth hyd yn oed yn gallu lleihau poen gorfforol. Mae canu mewn côr yn fwy llesol byth, gan fod meistroli caneuon newydd yn hwb i'r ymennydd ac i'r cof, ac yn rhoi teimlad o foddhad, ac mae'n gyfle i wneud ffrindiau newydd, wrth gwrs.

Mae digonedd o gorau yng Nghaerdydd, o bob lliw a llun. Beth am fynd ati i ymuno ag un? Rwy'n siŵr y cewch chi hwyl aruthrol arni!

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.**

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *“Mis Mai, mis y blodau”*

Mis Mai, mis y blodau a mis pen-blwydd y bardd Eifion Wyn sy’n diweddu ei gerdd i fis Mai gyda’r pennill “Gwn ei ddyfod, fis y mêl/Gyda’i firi gyda’i flodau/Gyda dydd fy ngeni innau/Gwyn fy myd bob tro y dêl.” Eisoes mae’r wlad wedi deffro hefo miloedd o Gennin Pedr yn tyfu ymhob man ond y mis hwn disodlir melyn y Cennin Pedr gan las Bwtias y Gog neu’r Clychau Glas a’u persawr cryf a hyfryd.

Ynghanol harddwch a gobaith y gwanwyn mae Trump a Putin yn hawlio sylw’r byd ac anodd gwybod beth sydd o’n blaenau gan fod y byd wedi mynd yn lle peryglus i fyw ynddo. Mae gwylio lluniau torcalonnus ar ein setiau teledu yn ddyddiol bron o Gaza ac Wcráin yn arbennig yn peri loes ond rhaid cofio bod mannau eraill yn y byd yn dioddef hefyd a does dim diwedd ar y dioddef.

I chi ddarllenwyr sy’n gwirioni ar hanes y Wladfa a’i phobl mae llyfr newydd o’r enw *Richard Jones Berwyn* sy’n adrodd hanes bywyd dylanwadol a rhyfeddol un o arloeswyr y Wladfa. Daw’r awdur Graham Wynne Edwards o Dyffryn Ceiriog sef yr un dyffryn â Ceiriog y bardd, Richard Berwyn ac Islwyn Ffowc Elis. Mae’r llyfr yn werth ei ddarllen.

Ar hyn o bryd mae’r ffilm *Mr Burton* i’w gweld yn sinemâu’r wlad sy’n adrodd hanes Philip Burton, mentor yr actor byd-enwog Richard Burton (Jenkins) gynt o Gwmafan a’r berthynas broffesiynol rhyngddyn nhw a arweiniodd at lwyddiant disglair yr actor. Cyfarwyddwr y ffilm ydy Marc Evans gynt o Rhiwbeina ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Rhydfelen. Mae’r ffilm hon yn rhan o ddathliadau geni Richard Burton gan mlynedd yn ôl i eleni.

Dros y Sulgwyn cynhelir Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam ym Mhort Talbot ac mae hen edrych ymlaen yn barod at yr Eisteddfod hon. Ym Mhort Talbot mae Eglwys y Santes Fair ac yn ei mynwent mae bedd Dic Penderyn sef Richard Lewis a grogwyd ar gam yng ngharchar Caerdydd am ladd milwr yn ystod yr anhrefn o blaid y Siartwyr yng Nghasnewydd. Flynyddoedd ar ôl ei grogi cyfaddefodd gŵr arall mai fo a gyflawnodd y drosedd. Ysywaeth mae’r eglwys lle lleolir bedd Dic Penderyn wedi cau ers dros flwyddyn rwan a felly mae rhai pobl yn poeni am beth fydd hanes bedd y gwron hwn. Mae Meic Stephens y cerddor â chân am hanes Dic Penderyn.

Mae tua 70 mlynedd wedi pasio ers sefydlu Ysgol Gymraeg yn Llundain ac am flynyddoedd lawer hon odd yr unig ysgol Gymraeg yn y byd y tu allan i’n gwlad nes i bobl y Wladfa fynd ati i sefydlu tair ysgol Gymraeg sef dwy yn Nyffryn Camwy ac un yn yr Andes; rhyngddyn nhw mae cannoedd o ddisgyblion yn dysgu Cymraeg erbyn hyn. Yn anffodus ar hyn o bryd mae pryder am ddyfodol Ysgol Gymraeg Llundain gan fod ‘na ostyngiad yn nifer y disgyblion am fod nifer o deuluoedd odd yn cefnogi’r ysgol wedi dychwelyd i fyw yng Nghymru. Ond er gwaethaf y sefyllfa mae trefnwyr a charedigion yr ysgol yn benderfynol o gadw drysau’r ysgol ar agor gan obeithio y daw rhagor o ddisgyblion i’r ysgol hon maes o law.

Dros y misoedd dwy wedi rhoi sylw i hanes Wrecsam yn y golofn hon ond y mis hwn dwy’n dod nes gartre achos ym mhapur y *Times* mewn arolwg dynodwyd saith lle yng Nghymru sy’n werth byw ynddyn nhw a rhestru eu rhagoriaethau ac mae Rhiwbeina yn un o’r saith! Y chwe arall ydy Penrhyn Gŵyr, Crughywel, Maenclochog, Penarth, Llanandras a Dyffryn Clwyd. Yn anffodus ynghanol yr holl ganmol am Riwbeina does dim gair am Gymreictod y lle o ystyried bod Cylch Meithrin Cymraeg yn Rhiwbeina ers 1959, capel Cymraeg ers 1982 a chymdeithas Gymraeg ers 1992 ac ers amser mae Clwb Hamdden i’r henoed wedi symud i’r ardal o festri Capel Minny Street. Ond cofiwch os ydych am fentro dod i fyw yn ein plith yn Rhiwbeina bydd angen poced go ddyfn arnoch gan fod pris prynu tŷ yma yn uchel!

Yn olaf y tro hwn rhaid llongyfarch Rose Datta sy’n gyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf ar ddod i’r brig yng nghystadleuaeth rhaglen *Y Llais* ar S4C yn ddiweddar. Yn sicr mae dyfodol disglair iddi ym myd y canu modern gan fod ganddi lais arbennig. Ar hyn o bryd hi ydy prif leisydd y band ifanc cyffrous Taran sy eisoes wedi chwarae yng Nghlwb Ifor Bach, Tafwyl a’r Eisteddfod. Yn bersonol clywais i Rose yn canu am y tro cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd pan enillodd hi y gystadleuaeth Cân o’r Sioeau a meddyliais i y pryd hynny byddwn yn clywed sôn amdani eto - a gwir y gair!

Tan y mis nesa.

## O’r Pwyllgor

1. **Cynhelir y Cwrdd Blynyddol eleni ar nos Fawrth, 1 Gorffennaf, am 6.30 yn nhŷ bwyta Porro, Stryd Fawr, Llandaf. Bydd bwyd yn dilyn am 7.30. Os am bryd o fwyd blasus yna rhowch wybod erbyn 15 Mehefin i Manon ein cadeirydd, John Hayes, ein is-gadeirydd neu Eirian a Gwilym.**
2. **Os ydych yn derbyn copi pdf trwy Stripe neu e-bost (heblaw trwy ddosbarthwr lleol), noder taw Ela Pari Huws sy’n dosbarthu. Medrwch gysylltu trwy ydinesydd@hotmail.com**
3. **Eleni eto roedd datganiadau banc ddechrau Ebrill yn dangos bod sawl un wedi talu £8, £10 neu £12. Ond pris copi caled neu .pdf erbyn hyn yw £15. Os gwelwch yn dda, os ydych wedi talu llai na £15, a wnewch chi gywiro’r camgymeriad yma er mwyn gwneud gwaith ein swyddog tanysgrifiadau newydd, Dr David Charles, yn haws. Diolch am bob cydweithred.**

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfod mis Ebrill cawsom awr ddifyr yng nghwmni'r cerddor Geraint Lewis.

Magwyd ef yng Nghaerdydd a chafodd ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan oedd yn 10 oed roedd plant yr ysgol yn cael mynd i wrando ar y Gerddorfa yn BBC Llandaf; roedd y rhaglenni yn mynd allan yn fyw amser cinio ar ddydd Mawrth. Arferai fynd i Eglwys Gadeiriol Llandaf i wrando ar y gerddorfa yn ystod Gŵyl Llandaf a gynhaliwyd ym mis Mehefin o 1970 tan 1982. Roedd cerddorfa lawn yn chwarae yno. Yng Nghaerdydd, yn y 70au, dim ond yn yr Eglwys Gadeiriol yr oedd yn bosib codi llwyfan i ddal y Gerddorfa. Dywedodd ei bod yn gyfareddol bod mewn cyngherddau gyda cherddorfa lawn yn chwarae. Ym 1977 aeth i Gaergrawnt a chael y cyfle wedyn i fynd i neuaddau cyngerdd a Neuadd Albert.



Geraint Lewis

Ym 1884 roedd neuadd gyngerdd yng ngwesty'r Prince of Wales, lle i 2500 o bobl i eistedd a 250 ar y llwyfan. Cynhaliwyd cyngherddau yno bob tair mlynedd tan 1924, pan y'i trowyd yn sinema. Ym 1982 agorwyd Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd, neuadd gyngerdd iawn, yn dal 1800 i 2000 o bobl, a lle i gerddorfeydd llawn. Yn anffodus, oherwydd problem gyda'r math o goncrit a ddefnyddiwyd i'w adeiladu mae Neuadd Dewi Sant ar gau ers 2023.

Ym 2025 mae prifddinas Cymru heb neuadd gyngerdd.

Dywedodd fod Caerdydd wedi cael ei esgeuluso'n gerddorol; wedi cael cyfleon, ond heb fanteisio arnynt. Gobeithiai na fyddwn yn colli Neuadd Dewi Sant.

Yn ystod y sgwrs chwaraeodd nifer o ddarnau o gerddoriaeth, gan gynnwys Osian Ellis yn chwarae concerto o waith William Matthias ar y delyn.

Braf yw cael aelodau newydd yn ymuno â ni, ac os hoffech ymuno, rydym yn cwrdd am 11 o'r gloch, bob yn ail bore Mercher, yng nghapel Bethel, Heol Maes y Deri, Rhiwbeina. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Beth Killen ar 029 20566508.

*Mair Morgan*

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Daeth tua 60 o Gymry Cymraeg Caerdydd i'r New House ar 7 Ebrill i fwynhau pryd o fwyd blasus, a chymdeithasu. Ein siaradwr gwadd, y tro hwn, oedd y newyddiadurwr Eifion Glyn, brodor o Ddyffryn Nantlle, a fu'n gohebu o fannau peryglus y byd megis Chernobyl ac Afghanistan. Buodd Eifion Glyn yn cynhyrchu'r rhaglen materion cyfoes *Y Byd ar Bedwar* am dros chwarter canrif. Ond nid hanesion ei deithiau a gawsom ond, yn hytrach, ei ymgais o, ynghyd â Dylan Iorwerth, i gyhoeddi papur Sul wythnosol i'r gogledd.

Cafwyd hanes dau newyddiadurwr ifanc ac, hwyrach, fel y nododd Eifion Glyn, dau ddiniwed, a diffyg profiad busnes. Beth oedd ganddynt, serch hynny, oedd cariad at yr iaith a'r wasg Gymreig. Hefyd, roeddent yn ymwybodol iawn o ddylanwad gormesol y wasg Seisnig ar Gymru. (Dim newid yn fanna felly!) Clywsom am eu hymdrechion i sicrhau gwasg i gyhoeddi; i drefnu dosbarthu effeithiol; yr oriau a roesant i gysodi'r papur; a chyfraniad colofnwyr enwog, megis Carwyn James.

Er na ddefnyddiodd Eifion Glyn yr ansoddair "arwrol", credaf inni, fel cynulleidfa, gael cipolwg ar yr aberth a wnaeth Dylan ac yntau i roi llais i faterion Cymreig y dydd. Dim ond pedair wythnos ar ddeg y parodd *Sulyn* ond, fel sy'n cael ei nodi, os "gwglwch", *Sulyn* "was a pioneering publication in Welsh-language media"! Ymdrech lew ym 1982. Fel y nododd Eifion, mor bwysig yn 2025 ydy plwraliaeth yn y wasg, mor bwerus yw cyfryngau cymdeithasol sy'n cyflyru meddyliau gyda newyddion ffug, a'i bod hi'n ddyletswydd arnom i gyd i sicrhau bod gennym wasg rydd a chref, un o gonglfeini ein democratiaeth.

Cynhelir ein cyfarfod nesa ar 12 Mai yn y New House, fel arfer, yng nghwmni Ffion Dafis o fyd y theatr a'r celfyddydau. Os oes gennych awydd dod, mae croeso i chi gysylltu â Paul Morgan a'r cyfeiriad e-bost ydy cylchcinio@gmail.com.

*Bethan Whittall*



Wyn Rees ac Eifion Glyn

## Dymchwel Neuadd y Sir Caerdydd, adeilad dinesig nodedig yng Nglanfa'r Iwerydd

Er bod 1988, y dyddiad y cwblhawyd Neuadd y Sir, gryn dipyn yn ôl i rai, nid yw'n hir ym mywyd adeilad gwych fel y Neuadd yng Nglanfa'r Iwerydd. Hwn oedd yr adeilad mawr cyntaf i'w ddylunio a'i adeiladu ar ddechrau'r gwaith o ailddatblygu'r seidins rheilffordd enfawr a'r dociau segur. Fe'i cynlluniwyd yn arddangosfa o estheteg ac adeiladu o ansawdd da, i benseiri ac adeiladwyr ac i'r ymwelwyr a ddisgwylid yn y dyfodol.

Roedd yr adeilad hwn wedi'i dirlunio, a'r ardal o'i amgylch wedi'i ddylunio, yn bensaernïol. Adeilad dinesig pwrpasol ydoedd â siambr y cyngor, ardaloedd cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus i holl fusnes yr awdurdod lleol, a swyddfeydd modern i'r staff.


*Llun: Wikipedia*

Nodwyd a defnyddiwyd deunyddiau da yn y dyluniad allanol, gan gynnwys waliau brics, inswleiddio ceudod a ffenestri gwydr dwbl. Roedd crefftwaith o ansawdd uchel yn nodwedd o'r gwaith adeiladu. Gofyniad brîff adeiladu'r prosiect oedd i ddarparu cyflogaeth leol, defnyddio ffynonellau lleol er budd economi Cymru, bod yr adeilad yn cael ei godi am hir oes a'i fod yn hawdd ei gynnal a'i gadw. Roedd y to o lechi Cymreig o chwarel fwyaf gogledd Cymru yn enghraifft o'r gofyniad.

Un o ofynion pwysicaf y brîff dylunio oedd amodau amgylcheddol da ar gyfer y rhai fyddai'n gweithio yn yr adeilad. Roedd pob aelod o staff, cyn belled ag y bo modd, i gael rhywfaint o reolaeth dros ei amodau gweithio - bod yn weddol agos at ffenestri ar gyfer golau dydd, gallu agor y ffenestri yn eu gweithle a gallu rheoli'r goleuadau artiffisial. Gosodwyd lloriau crog a nenfydau ffug er mwyn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r adeilad at y dyfodol.

Gwan yw rhesymau Cyngor Caerdydd dros ddymchwel yr adeilad, ond yn hynod gostus sy'n gwastraffu llawer o arian. Os yw'r adeilad yn rhy fawr i'w ddefnyddio ar hyn o bryd fel y dywedodd Arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas, gallai'r lleoedd gwag gael eu defnyddio'n well drwy rentu allan i godi refeniw y mae mawr ei angen.

*Arthur Evans*

---

## Cantorion Ardwyn Caerdydd yn dathlu pen-blwydd yn 60 oed

Mae Cantorion Ardwyn Caerdydd yn falch iawn o gyhoeddi dathliad pen-blwydd arbennig yn 60 oed gyda chyfres o ddigwyddiadau arbennig. Côr cymysg ydyw, â hanes cyfoethog o ragoriaeth gerddorol, ac mae'n parhau i ysbrydoli cynulleidfaoedd gyda'i repertoire amrywiol a'i prosiectau arloesol. Mae'r côr arobryn, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerdd, David Leggett, yn un o gorau cymysg mwyaf blaenllaw Cymru. Mae'n enwog am ei repertoire amrywiol a'i ymlyniad arbennig â cherddoriaeth gyfoes Gymraeg.

Bydd Cantorion Ardwyn Caerdydd yn cychwyn ar daith gyffrous i Wlad Belg, lle byddant yn perfformio dau gyngerdd, gan barhau â'u dathliadau pen-blwydd a rhannu eu hangerdd am gerddoriaeth gorawl gyda chynulleidfaoedd rhyngwladol.

Mae gan y Cantorion hanes hir o gomisiynu cerddoriaeth newydd a hyrwyddo cerddoriaeth gyfoes Gymraeg yng Nghymru a thramor i gynulleidfa fyd-eang. Rhan greiddiol o ddathliadau pen-blwydd y côr yn 60 oed yw prosiect comisiynu cyffrous *Awen yr Ardwyn - Ardwyn Inspirations*. Bydd y prosiect hwn yn cael ei sbarduno gan bum darn poblogaidd o gerddoriaeth ac yn comisiynu pum gwaith cysylltiedig newydd, wedi'u hail-ddychmygu gan gyfansoddwyr cyfoes sy wedi'u hysbrydoli gan draddodiad corawl Cymru. Bydd y darnau hyn yn cael eu perfformio am y tro cyntaf erioed yn nghyngherddau'r côr yn ystod y flwyddyn o ddathliadau.

Mae datblygu cerddoriaeth ieuenctid yn bwysig iawn i'r Cyfarwyddwr Cerdd presennol, fel yr oedd i'w ragflaenydd Helena Braithwaite. Mae tocynnau i berfformiadau côr am ddim i blant dan 18 oed, gyda thocyn £10 i fyfyrwyr.

*Gill Lloyd*



# Colofn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

## Eisteddfod yr Urdd: gwerth cystadlu i fyfyrwyr

Mae'n fis Mai unwaith eto a nifer o blant a phobl ifanc Cymru'n paratoi'n drylwyr tuag at Eisteddfod yr Urdd. Ers yn ifanc rydw i wedi cystadlu yn yr Eisteddfod mewn cystadlaethau amrywiol ac yn parhau i wneud hyd heddiw fel myfyrwraig yn y brifysgol. Mae cymryd rhan yn y cystadlu yn rhan annatod o'm bywyd ac nid wyf yn gallu dychmygu peidio â bod yn rhan o'r bwrlwm.

Dechreuodd y cyfan imi pan oeddwn i'n blentyn ifanc yn cystadlu gydag aelwyd Bro Taf ac Ysgol y Wern, ac yna Ysgol Glantaf yn f'arddegau. Mae hyn yn sicr wedi chwarae rôl flaenllaw wrth siapio fy hunaniaeth, ac felly pan ddechreuais yn y brifysgol, penderfyniad naturiol oedd ymuno â chôr y Waun Ddyfal a pharhau i gystadlu yn yr Eisteddfod. Mae'n deg dweud fy mod i wastad wedi bod wrth fy modd yn cystadlu, ond nawr fy mod i'n oedolyn ifanc, teimlaf fy mod i'n wirioneddol yn gallu myfyrio ar werth y profiadau hyn.


Mae bod yn gystadleuydd yn Eisteddfod yr Urdd wedi rhoi cyfle i mi fod yn rhan o gymuned Gymraeg gref, ac rwyf wedi dod i adnabod llawer o bobl wahanol drwy hyn. Nid yn unig rydw i wedi gwneud ffrindiau oes, ond rwyf hefyd wedi adeiladu rhwydwaith gref a chreu cysylltiadau gyda phobl ledled Cymru. Wrth imi gamu i'r byd gwaith yn y blynyddoedd nesaf, mae rhwydweithio'n dod yn fwyfwy pwysig yn fy mywyd, ac mae cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd wedi rhoi sylfaen gref imi yn hyn o beth.

Drwy gystadlu yn yr Eisteddfod rydw i hefyd wedi meithrin sgiliau gwerthfawr megis cyfathrebu, creadigrwydd a chydweithio; sgiliau pwysig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ymhlith rhai o'r sgiliau pwysicaf imi eu datblygu yw hyder a hunangred; pethau sy'n hawdd i'w hanghofio ond sy'n hollbwysig os am lwyddo nid yn unig yn yr Eisteddfod, ond mewn unrhyw agwedd o fywyd. Os oes gennych chi hyder, rydych chi hanner y ffordd at lwyddo! Heb amheuaeth felly, mi fyddwn i lawer tlotach o ran sgiliau petawn i heb gael cyfleoedd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd hefyd wedi dod â chyfleoedd eraill imi y tu hwnt i'r Eisteddfod. Un o'r rheiny yw'r cyfle a gefais i fynd i Disneyland Paris gyda'r Urdd yn sgil llwyddiant yr ysgol yn yr Eisteddfod y flwyddyn flaenorol. Cawsom gyfle i berfformio i gynulleidfa newydd yno gan gynrychioli Cymru a diwylliant Cymreig ar lwyfan rhyngwladol. Yn sicr felly rydw i wedi profi y gall cystadlu yn yr Eisteddfod arwain at fwy o gyfleoedd annisgwyl a chyffrous! Pwy a ŵyr pa gyfleoedd eraill allai godi!

Rwy'n hynod ddiolchgar am yr holl gyfleoedd a ffyrdd rydw i wedi datblygu fel person o ganlyniad i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, ac rwy'n sicr yn meddwl bod parhau i gystadlu fel myfyrwraig yn fantais enfawr. Rwy'n edrych ymlaen yn arw at gynrychioli rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn yr Eisteddfod fis yma gyda chôr y Waun Ddyfal! Pob lwc i bawb arall fydd hefyd yn cystadlu!

*Hannah Williams*



# Merched y Wawr Bro Radur



Nos Fercher 2 Ebrill, Arfon Haines Davies ddaeth atom, a chawsom noson i'w chofio wrth iddo sôn am ei blentyndod a'i yrfa ym myd y cyfryngau. Gyda'i ddawn naturiol i adrodd stori, rhannodd atgofion gwerthfawr.

Cafodd freintiau cynnar megis cwrdd â siaradwyr adnabyddus fel mae ei hunangofiant, *Mab y Mans*, yn dangos. Ac yntau'n fab i weinidog Wesle roedd symud eglwys a chartref bob rhyw dair neu bum mlynedd yn sicrhau profiadau newydd a gwerthfawr ynghyd ag ambell her. Cafodd ei eni yng Nghaernarfon, a byw yn Nhreharris, Llandeilo, Aberystwyth a Threffynnon. Ar aelwyd ei rieni ac yn y capel yn Aberystwyth, cafodd gwmni nifer o lenorion adnabyddus, yn eu plith Gwilym R. Tilsley, T.H. Parry-Williams, Tegla Davies a D. Tecwyn Evans.

Pan oedd oddeutu 15 oed, ac yntau ar wyliau teulu yn Llundain, cafodd ymweld â stiwdio enwog Elstree. Yno roedd Roger Moore yng nghanol ffilmio cyfres adnabyddus *The Saint*, a dechreuodd Arfon weld posibiliadau gweithio ym myd y cyfryngau. Yn ddiweddarach cafodd helpu actorion fel Nerys Hughes (*The Liverbirds*) a mwynhau profiadau cynnar o fod ar lwyfan.

Un o'r dylanwadau gwerthfawr oedd astudio yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, lle roedd Norah Isaac yn ddarlithydd. Wedyn, o ganlyniad i gael ei benodi'n ifanc ar staff HTV, cafodd yrfa liwgar ac anturus, ac yn y man roedd yn wyneb cyfarwydd ar raglenni S4C.

Er iddo gyfarfod â nifer o enwogion, pwysleisiodd mai 'pobl ydy pobl', p'run a ydyn nhw i'w gweld ar sgrîn y teledu neu beidio. Ac roedd ei deulu a'u cefnogaeth yn sail i bob llwyddiant a ddaeth i'w ran.

Cyhoeddodd ein llywydd mai ein siaradwr gwadd yn ystod Gŵyl Radur, nos Fercher 7 Mai am 7.30pm, fydd Gethin Russell-Jones. Croeso cynnes i bawb (dynion yn ogystal â merched) i ymuno â ni yn Ysgoldy Eglwys Crist, Radur, i glywed hanes Cymraes ddewr a fu'n gweithio ym Mharc Bletchley.

*Gwen Emyr*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun 14 Ebrill, wythnos ynghynt nag arfer oherwydd Gwyliau'r Pasg, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Cadeirydd Iona Edwards. Rhoddwyd croeso arbennig i wrando ar sgwrs gan yr awdur lleol Ioan Kidd. Dywedodd Ioan ei fod yn falch iawn o fod yn bresennol gan ei fod yn adnabod cymaint o wynebau cyfarwydd yn y gynulleidfa, ac o'r herwydd yn teimlo'n gartrefol iawn. Roedd hyd yn oed ambell i gydweithiwr o ddyddiau ei yrfa fel athro yn bresennol.

Aeth Ioan â ni yn ôl i ddylanwadau ei ddyddiau fel myfyriwr ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan, a'r dylanwadau a fu'n fodd i ysgogi ei yrfa fel llenor, yn arbennig ei ddarlithydd y Dr John Rowlands a'i gyfoedion Steve Eaves, Tony Bianci a Dafydd Islwyn. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o wrando ar bobl yn siarad ac yn blentyn bu ef ei hun yn ffodus o wrando ar oedolion yn sgwrsio gan fanylu ar y ffordd o siarad a'r dywediadau cyfoethog a glywodd ar yr aelwyd. Cyfeiriodd at ei lyfr diweddaraf sef *Tadwlad*, a disgrifiodd yr elfennau a'r digwyddiadau a symbylodd ei nofel, ynghyd â'r ymchwil a wnaeth i gwblhau ei orchest.

Wedi nifer o gwestiynau diolchwyd iddo gan yr Is-gadeirydd Carol O'Donnell am y noson ac edrychwn ymlaen at ei gyfrol nesaf.



*Carol O'Donnell, Ioan Kidd ac Iona Edwards*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Gawn ni haf cynnes neu boeth eleni?*

**Gwilym Dafydd**

Sut mae'r tywydd? Mae hi wedi bod yn ddiwrnod hyfryd heddiw – diwrnod olaf ond un mis Ebrill. Dydd Mawrth felly a'r nawfed ar hugain o'r mis. Llawer haws yw dweud 29 Ebrill neu ddau ddeg naw.

Ddylwn i ddim rhoi gwybod ichi beth yw'r dyddiad heddiw oherwydd mae'r colofnwyr a'r cyfranwyr rheolaidd yn gwybod taw'r seithfed ar hugain neu ddiwrnod dau ddeg saith o'r mis yw dyddiad cau derbyn cyfraniadau. Wel, rhaid bod yn hyblyg mewn bywyd weithiau! Hyblygrwydd – tybed ydy hwn yn air newydd i rai ohonoch chi?

Mae'r dyddiad cau yn gynharach ar gyfer rhifyn mis Mawrth, hyd yn oed mewn blwyddyn naid. Mae'n debyg eich bod chi'n sylweddoli pam bod y Mis Bach neu fis Chwefror yn wahanol.

Ond siawns bydd nifer ohonoch chi yn darllen hwn rhwng tua'r degfed o fis Mai a chanol y mis. Efallai erbyn hynny bydd y cyfnod sych wedi dirwyn i ben a bydd hi'n bwrw glaw neu'n wyntog – tywydd diflas, hynny yw!

Mae'n ddiddorol nodi bod sawl ansoddair gyda'r tywydd yn gorffen gydag "og". Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau? Dyma ambell un heblaw am wyntog: cymylog, niwlog, glawog, heulog a thesog.

Ond mater o farn bersonol yw ateb y cwestiwn am y tywydd a dweud y gwir. Dwi'n cofio fy nyddiau fel tiwtor Cymraeg i Oedolion mewn sawl canolfan lan y Cymoedd – Treharris, Aberdâr, Merthyr ac ati.

Taswn i'n holi'r cwestiwn am y tywydd, yn amlach na pheidio, baswn i'n derbyn ateb fel 'Mae hi'n braf'. Ond baswn i'n dweud ei bod hi'n gymylog. Base dysgwyr yno yn dweud 'poeth' ond baswn i wedi meddwl 'cynnes' neu 'dwym'. Y rheswm, siŵr o fod, yw ei bod hi'n dwymach ac yn llai gwlyb yng Nghaerdydd a siarad yn gyffredinol nag i fyny'r A470 heibio Pontypridd ac ati!

Mae'n siŵr bydd nifer ohonoch chi wedi dysgu mewn cwrs Mynediad yn y flwyddyn gyntaf bod ansoddeiriau yn treiglo'n feddal ar ôl 'Mae hi'n …' Ond ceir un eithriad amlwg. Nid 'Mae hi'n fraf' ond 'Mae hi'n braf'. Does dim treiglad meddal yma.

Tybed ydych chi'n gwybod pam? Medrwch ofyn i'ch tiwtor os ydych yn dysgu'r iaith mewn dosbarth. Ond peidiwch dweud gair am fy enw i os gwnewch!

Beth bynnag, gobeithio cawn ni gyfnodau o dywydd sych a chynnes rhwng nawr a diwedd mis Hydref. Ac yn sicr yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. Dych chi wedi bwcio llety ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ger Wrecsam eto?

Ron ni ar Ynys Môn pan roedd tîm pêl-droed Wrecsam yn chwarae yn erbyn Charlton Athletic. Dechreuodd y gem am 5.30 neu hanner awr wedi pump. Prynhawn hynny yw, nid 5.30 y bore bach! Am ganlyniad gwych sef 3-0. Llongyfarchiadau mawr Wrecsam – dwi'n dweud dim am bêl-droedwyr yr Adar Gleision yma yng Nghaerdydd! Ond mewn blwyddyn arall – tybed a fydd Wrecsam yn herio Everton neu Lerpwl ar ddiwedd mis Ebrill 2026? Amser a ddengys…

Y mae'r teithiau gwylio'r adar ar Sadwrn cyntaf y mis yn parhau. Buom yn hynod o ffodus i gael tywydd bendigedig dros y ddeufis diwethaf i'r teithiau hyn. Wrth grwydro Fferm y Fforest ar Sadwrn cyntaf Mai cafwyd cyfle i wrando ar simffoni o adar yn canu'n ddi-baid. Dyma adeg gorau'r flwyddyn i wrando ar gân yr adar, ac wrth gwrs y mae Sul cyntaf Mai wedi ei glustnodi yn Sul Côr y Wig ers 1987. Tybed pwy ohonoch a wnaeth godi'n gynnar i wrando'r gân?



*Rhai o'r criw a ddaeth i wylio adar yn Fferm y Fforest ddechrau Mai.*

# Y DIGWYDDIADUR

## Mai

**Llun, 12 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £30 yr un. Siaradwraig wadd: Ffion Dafis, o fyd y theatr a'r celfyddydau. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan (07761-696286; cylch.cinio@gmail.com).

**Mawrth, 13 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan yr Esgob Mary Stallard, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.00pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher–Gwener, 14–16 Mai**
Theatr Cymru yn cyflwyno 'Huw Fyw' gan Tudur Owen yn Theatr Sherman. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/huw-fyw/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Iau, 15 Mai**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Gosod blodau gyda Kevin Davies, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion mywyfelin@gmail.com. Croeso.

**Iau, 15 Mai**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan Eurgain Haf, enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, am ei nofel *Y Morfarch Arian*, yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Glwb y Dwrlyn. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 16 Mai**
Digwyddiadau Melin. Noson Huw Chiswell yng Nghlwb Rygbi yr Eglwys Newydd am 7.30pm. Tocynnau: £15 (ar werth yn Siop y Felin). Manylion pellach Melin: https://www.facebook.com/groups/melincymdeithasol/

**Sadwrn, 17 Mai**
Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri rhwng 11.00am ac 8.00pm.

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Russell Isaacs ar y testun 'Newyddion Ddoe, sy'n dychwelyd o hyd', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Mawrth, 20 Mai**
Menter Caerdydd. Cerdded a Chlonc ym Mharc y Rhath am 10.30am. Cyfle i grwydro'n hamddenol a siarad Cymraeg. Am ddim. Yn addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg o bob lefel. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mercher, 21 Mai**
Digwyddiadau Melin. Cyngerdd Mwyniant Mai, gyda Chorau Ysgol Melin Gruffydd (iau a hŷn) a Lloyd Macey, am 6.00pm yng Nghapel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA. Tocynnau ar werth yn Ysgol Melin Gruffydd. Manylion pellach ar dudalen facebook Melin: https://www.facebook.com/groups/melincymdeithasol/

**Iau, 22 Mai**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan yr Athro Deri Tomos (Prifysgol Bangor) ar y testun 'Kyffin, Coch a Melyn'. Drwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 29 Mai**
Menter Caerdydd yn cyflwyno 'Laffwyl!' yn nhafarn Parc Fictoria (CF5 1JL) am 7.30pm. Tocynnau (£10): www.mentercaerdydd.cymru (neu £12 wrth y drws).

## Mehefin

**Mercher, 4 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Gwibdaith a phryd o fwyd.

**Gwener–Sadwrn, 6-7 Mehefin**
Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Sgleinio'r Lleuad' gan Caryl Lewis, cynhyrchiad theatrig i blant 3–8 oed a'u teuluoedd, yn Theatr Sherman. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/sgleinior-lleuad/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Sadwrn, 7 Mehefin**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Sul, 8 Mehefin**
Menter Caerdydd. Taith gerdded yn ardal Llanisien a chyfle i ddysgu am hanes yr ardal, yn dechrau am 2.00pm. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 9 Mehefin**
Menter Caerdydd. Mewn Tiwn yng nghwmni 'Dwy' (sef Enlli a Lleucu Parry), yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Am ddim, ond gwahoddir cyfraniadau wrth y drws. Nid oes angen tocyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mercher, 11 Mehefin**
Gig Ieuenctid Ffrinj Tafwyl (14+), yng Nghlwb Ifor Bach am 7.30pm. Am ddim, ond rhaid archebu lle: https://mentercaerdydd.cymru/event/ffrinj_tafwyl_gig_ieuenctid/64

**Iau, 12 Mehefin**
Noson Pitsa yng nghwmni'r digrifwr Aled Richards, yn Snails, Rhiwbina. Yn rhan o Ŵyl Rhiwbina, gyda'r elw yn mynd at gronfa'r Urdd, 'Cyfle i Bawb'. Drysau yn agor am 6.30pm. Tocynnau (£20 y pen) gan Enid (07974-959415) a Shirley (07918-193345).

**Iau, 12 Mehefin**
Digwyddiadau Melin. Noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes, yng Nghlwb Tenis yr Eglwys Newydd. Mynediad drwy docyn yn unig. Manylion pellach ar dudalen facebook Melin: https://www.facebook.com/groups/melincymdeithasol/

**Iau, 12 Mehefin**
'Dragwyl' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 8.00pm. Oed: 18+. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/dragwyl

**Gwener, 13 Mehefin**
Menter Caerdydd. Tafwener: Noson Retro o Glasuron y 70/80/90au, ar safle Tafwyl ym Mharc Bute am 7.30pm. Tocynnau: £20. Manylion pellach: https://mentercaerdydd.cymru/event/tafwener_2025/29.

**Sadwrn–Sul. 14–15 Mehefin**
TAFWYL, ym Mharc Bute: https://tafwyl.org/

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dud. 2**

# Bwytai Merch y Ddinas

## *Thomas Pontcanna*



**Lowri Haf Cooke**

Mae'n benwythnos y Pasg arna i'n sgwennu'r llith hwn, a Chaerdydd yn dawel braf. Does dim sôn o dwrw arferol y tagfeydd a'r bysus ysgol; mae'n teimlo fel bod pawb wedi gadael y ddinas ond y fi. Dwi'n caru Caerdydd pan mae'n dawel fel hyn, ac mae'n f'atgoffa o elfennau gorau'r cyfnod glo; pan ges i sylwi wrth grwydro ar y gwanwyn yn ffrwydro o'm cwmpas, fel arddangosfa tân gwyllt.



I fod yn deg, mae'r haul yn gwenu wrth imi deipio'r geiriau hyn, felly ydw, mi ydw i yn fy hwyliau go iawn. Ond ro'n i wir yr un mor ddedwydd dros y dyddiau glawog diwethaf, wrth wneud y mwyaf o gael y ddinas i fi fy hun. Oherwydd dwi'n weddol hyderus imi brofi'r cinio allan gorau ga i eleni mewn bwyty yng Nghaerdydd. Gydag wyth mis dal yn weddill o 2025, gwn fod hynny'n dipyn o ddweud - ond wir i chi, daeth yr elfennau i gyd ynghyd. Lleoliad, cwmni, croeso, awyrgylch a safon anhygoel am y pris. Wna i ddim gwamalu rhagor cyn datgelu y lleoliad... sôn ydw i am fwyty hyfryd Thomas, Pontcanna.



Mi fedra i glywed eich ochneidiau, o Waunadda i Riwbeina, a Llaneirwg yr holl ffordd i'r Bont-faen; 'Ond Lowri, beth am y pris, ma'r lle na'n goblyn o ddrud?' A dyna'n union beth fydden i wedi'i ddweud yn eich lle chi fyd. Mae'n flynyddoedd ers imi fod yno, ers i brisiau'r bwyty gynyddu rhwng sgil-effeithiau Brexit, a'r pandemig, a chostau ynni – er bod y fwydlen yn cynrychioli blasau gorau Sir Benfro a Chymru gan fod y cogydd Tom Simmons yn hanu o'r Preseli. Ond gyfeillion, ar hyn o bryd rhwng dydd Mercher a dydd Sadwrn, mae 'na gyfle anhygoel i sawru cinio dri chwrs ym mwyty Thomas am £30.

Dwi'n gwbod, dwi'n gwbod, 'Get a grip nei di Lowri, dyw £30 am ginio i un person ddim yn 'rhad' ar unrhyw blaned - ac yn arbennig mewn cyfnod di-ddiwedd o argyfwng economaidd.' Mae hynny'n hollol wir, a gallwn i eich arwain ar eich union at sawl bwyty annibynnol arall yn y ddinas am ginio cryn dipyn rhatach. Fe gewch chi gyros cig moch o Saraztro am £7.95 a sleisen rataf West Pizza am deirpunt. Neu os am flas mwy traddodiadol, cewch chi fowlen o lobsgóws ardderchog o Canna Deli am £10.50. Yn wir, dros fisoedd y gaeaf bues i'n mwynhau fy nghawl minestrone cartref – rysáit gan fy ffrind, Non, sy'n llysieuwraig – am tua 37c y fowlen. A rhyngtho chi a fi, mae mor flasus a chysurlon 'mod i am barhau i'w baratoi i ginio ar hyd y gwanwyn.

Pan fo'r esgid fach yn gwasgu, rhaid bod yn gall a chyllidebu, ac mae'r gallu i goginio ar adegau felly wir yn achubiaeth. Ond mae wastad yn braf cael mynd allan am ginio arbennig, a wir i chi, does dim gair arall i ddisgrifio pris cinio tri chwrs yn Thomas ond 'bargen', yn ei gyd-destun. Ac o gofio bod bwyty gwobrwyol Gorse rownd y gornel newydd gynyddu pris y fwydlen ginio pedwar cwrs i £60, mae cynnig o'r fath yn gryn atyniad.

Beth ges yno i felly oedd mor wirioneddol arbennig, amser cinio ddydd Gwener y Groglith? Wel yn gyntaf, gallwn i 'di bwyta pob dim ar y fwydlen – a dyw hynny ddim yn wir ar bob 'set menu' sy'n medru cynnig arlwy go gyfyng. Gwnes i ddechrau gyda 'tartare' tiwna ardderchog, gyda'r 'sgodyn amrwd o Gernyw wedi'i gydbwyso â gweadau amrywiol cloron (truffle), afocado a rhuddygl. Sôn am arddangosfa dân gwyllt gwanwynaidd o flasau. Parwyd melyster y bara triog (o frawd-fecws y bwyty, Ground, Pontcanna) yn berffaith â chyfoeth y menyn Marmite hallt. Yna'n brif gwrs dewisais blatiad o'r bol porc gyda saws seidr a Romesco, ar y cyd â gratin llysiau'r tymor. Penderfynais i ac Elin fy ffrind - a aeth am y brithyll a saws berw'r dŵr fel prif gwrs – i rannu'r macaroni a chaws gyda chloron fel saig ychwanegol, yn goron ar brif gwrs godidog. Yna i bwdin, crèmeux siocled, gyda hufen iâ banana, a saws miso a chnau mwnci caramelaidd. Sôn am ysgubol. Am ginio rhagorol yng nghwmni hen ffrind mynwesol, mewn bwyty chwaethus, llawn croeso cynnes. Dyna fy syniad i o 'seren' o brofiad.

Fe wna i orffen gyda caveat; yn amlwg, Thomas – o'm rhan i - yw'r bwyty dinesig i'w guro ar hyn o bryd, ond beth amdanoch chi? A thu hwnt i ffiniau'r ddinas, beth am ginio gorau'r fro? Wel, dyma'r her nesaf felly, i ffeindio 'profiad cyflawn' gorau Bro Morgannwg. Sôn am antur danteithiol tu hwnt!

Thomas, 3-5 Stryd Pontcanna, Caerdydd CF11 9HQ; 02921 167800

*Gwledd* (Y Lolfa) a *Bwytai Cymru* (Gwasg Gomer) gan Lowri Haf Cooke, ar werth yn eich siop lyfrau lleol.




## Ehangu Prosiect Hyrwyddo Addysg Gymraeg

Ddechrau Ebrill daeth partneriaid prosiect *Cymraeg i Bawb* a nifer o westeion amlwg ynghyd mewn cynhadledd yng Nghanolfan Soar, Merthyr, i nodi dwy flynedd gyntaf y prosiect. Mae *Cymraeg i Bawb* yn bartneriaeth rhwng y 10 awdurdod lleol yn y de-ddwyrain, mentrau iaith y rhanbarth a rhanddeiliaid amlwg eraill sydd i gyd â'r nod o hybu addysg Gymraeg yn y rhan hon o Gymru - lle ceir bellach dros 80 o ysgolion Cymraeg, o Langynwyd i Drefynwy - ardal sy'n cyfateb i Ddinas-ranbarth Caerdydd. Ers 2023 mae'r Bartneriaeth wedi llwyddo i ennill cyllid cychwynnol oddi wrth Lywodraeth Cymru gan gomisiynu nifer o brosiectau hyrwyddo megis fideos ysgogol a baneri pwrpasol i ysgolion, negeseuon ar gefn bysus lleol, canllawiau marchnata, hyfforddiant pwrpasol, ac arfer da ar draws y rhanbarth.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r ymdrech i hyrwyddo buddion addysg Gymraeg i bawb o bob cefndir ac i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith er mwyn cyrraedd nod y llywodraeth o filiwn o siaradwyr â dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050.

Defnyddio'r Gymraeg oedd testun sgwrs Comisiynydd y Gymraeg, Efa Gruffudd, yn y gynhadledd. Mae hefyd wedi cyhoeddi tri blaenoriaeth strategol dros y pum mlynedd nesaf, gydag un maes yn cyd-fynd â gwaith *Cymraeg i Bawb.* Y prif newyddion yn y gynhadledd oedd bod prif siaradwr y bore, Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi nid yn unig fod gwaith prosiect y de-ddwyrain i barhau, ond bod model y bartneriaeth ranbarthol i gael ei ehangu drwy Gymru, gyda mwy o gyllid, dan faner Mentrau Iaith Cymru a'u Cyfarwyddwr, Myfanwy Jones.



*Y Gymraeg ar y bwrdd - Efa Gruffudd, Comisiynydd y Gymraeg, Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd a Mel Godfrey, Cyfarwyddwr Addysg y Sir gyda Mark Drakeford a Bethan Webb o Lywodraeth Cymru, Canolfan Soar Merthyr [Llun: Cymraeg i Bawb]*



*Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a Ffion Gruffudd, Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog, Cyngor Caerdydd, yng Nghanolfan Soar, Merthyr. [Llun: Cymraeg i Bawb]*

Mae'r datblygiad pwysig hwn yn arwydd o ffydd Llywodraeth Cymru yn y gwaith partneriaeth gwych sydd wedi ei gyflawni yn rhanbarth y de-ddwyrain dros y ddwy flynedd ddiwethaf dan arweinyddiaeth y Bwrdd a'r Cadeirydd, Ffion Gruffudd, Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog yng Nghyngor Caerdydd.

https://cymraegibawb.cymru
https://www.facebook.com/CymraegiBawb

## Y Gornel Llyfrau - Adolygiad o 'Gobaith Mawr y Ganrif', Robat Gruffudd

Lleolir *Gobaith Mawr y Ganrif* yng Nghaerdydd ac, fel *Merch y Cei* gan Catrin Gerallt, mae'n portreadu'r Gaerdydd gyfoes. Mae lleoliadau'r stori yn cynnwys Rhiwbeina, Pontcanna a Bae Caerdydd, tai bwytai ac orielau celf y brifddinas. Lleolir y stori yn y 2010au ac mae sawl lleoliad fel Clwb y Cameo a Gwesty'r Vulcan wedi hen fynd erbyn hyn.

Mae'r stori'n olrhain hanes Menna Beynon a Trystan, hen gariadon o ddyddiau coleg. Mae'r teitl yn cyfeirio at record hir *Gobaith Mawr y Ganrif* y diweddar Geraint Jarman, a cheir cyfeiriad parhaus drwy'r nofel o'u hoff record adeg eu dyddiau coleg. Tra bod Menna erbyn hyn yn Bennaeth Corff yr Iaith Gymraeg ac yn byw bywyd moethus a swanc yng ngogledd Caerdydd, mae Trystan yn byw yn Mhentawe yng Nghwm Tawe ac yn straffaglu byw, felly mae'n penderfynu ei blacmelo hi.

Teimla Trystan mai rhai fel fe a aeth i'r carchar am ymgyrchu gyda Chymdeithas yr Iaith sydd wedi creu'r holl swyddi newydd yn y llywodraeth a'r cyfryngau. Tra bo'r Gymraeg yn marw yn Mhentawe, mae Menna a'i theip yn prynu ail dai, ail geir, ail forgeisi, a Trystan yn methu â fforddio ei forgais cyntaf.

Wnaeth y chwyldro ddim digwydd a darlunnir yn amlwg y gwrthgyferbyniad mawr ym mywydau Menna a Trystan yn y nofel hon. Mae'r stori'n symud yn gyflym rhwng Caerdydd a Phentawe ac yna i Borthcawl ble daw'r cyfan i ben llanw.

Nofel ffraeth sy'n hawdd i'w ddarllen yw hon sy'n dod â llwybrau bywyd gwahanol ynghyd oedd ynghlwm gyda'r frwydr i achub yr iaith. Byddwn yn argymell ichi ei darllen.

*Iestyn Rhys Davies*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Mary Owen – ail i Ann Griffiths?**

Yn ôl Iolo Morganwg, mae Bro Morgannwg yn ymestyn o Afon Rhymni i'r dwyrain o Gaerdydd draw hyd at dref Aberafan. Felly, gan y cynhelir Eisteddfod yr Urdd ddiwedd mis Mai ym Mharc Margam, ym mhen gorllewinol y Fro, mae'n briodol ein bod yn rhoi sylw yng ngholofn 'Llys a Llan' y tro hwn i'r emynyddes Mary Owen (1796–1875), a hynny nid yn unig oherwydd ei chysylltiadau ag ardal yr Eisteddfod, ond hefyd am fod eleni yn 150 mlwyddiant ei marwolaeth.

Yn sgil Diwygiad Methodistaidd y 18fed ganrif, cafwyd ffrwydrad o emynau Cymraeg. Amcangyfrifir fod dros 3,000 ohonynt wedi eu hysgrifennu yn ystod y ganrif honno, a thros 800 o'r rheini gan yr un y gallwn ei alw'n 'Frenin yr Emyn Cymraeg', sef William Williams (1717–91) o Bantycelyn. Ac fe barhaodd y ffrwydrad hwnnw i mewn i'r ganrif ddilynol, oherwydd lluniwyd miloedd o emynau Cymraeg yn ystod y 19eg ganrif hefyd.

Nid yn unig yr oedd cynnyrch emynyddol y ddwy ganrif hynny'n sylweddol o ran maint, ond roedd hefyd yn nodedig o ran ansawdd. Ym marn beirniad llenyddol fel Bobi Jones (1929–2017), er enghraifft, emynau oedd cynnyrch llenyddol gorau'r Gymraeg yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Yn wir, aeth Owen M. Edwards (1858–1920) mor bell â dweud mai 'emynau Cymru yw gogoniant ei llenyddiaeth'; ac mae'r canu brwdfrydig ar emynau a ddaeth yn nodwedd gynyddol ar y diwylliant Cymraeg o ganol y 18fed ganrif ymlaen, yn gyfrifol i raddau fod Cymru wedi ennill yr enw yn rhyngwladol o fod yn 'Wlad y Gân'.

Un peth trawiadol am 'oes aur' yr emyn Cymraeg yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif yw bod cyn lleied o emynau'r cyfnod hwnnw wedi eu hysgrifennu gan fenywod. Mae hynny ychydig yn annisgwyl o gofio fod rhai fel Williams Pantycelyn wedi annog Cristnogion benywaidd 'i weddïo Duw, ac i ganu mawl […] ac i seinio allan ei glod Ef yn yr eglwys ar gyhoedd', a bod pob tystiolaeth yn awgrymu fod benywod yn amlwg iawn eu canu brwd yn seiadau'r Methodistiaid.

Un rheswm posibl am y prinder emynau hwnnw gan fenywod yw mai byd gwrywaidd i raddau helaeth oedd byd argraffu a chyhoeddi yn y cyfnod dan sylw. Efallai, felly, fod llawer mwy o emynau wedi eu cyfansoddi gan fenywod yn ystod y canrifoedd hynny, ond eu bod heb oroesi am eu bod ar lafar neu mewn llawysgrif yn unig, a heb gyrraedd print.

Yr enghraifft amlwg o hynny yw Ann Griffiths (1776–1805) – y byddwn yn dathlu 250 mlwyddiant ei geni yn 2026. Os Williams Pantycelyn yw 'Brenin yr Emyn Cymraeg', hi yn ddi-os yw'r 'Frenhines'. Ond er bod Ann Griffiths yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel emynyddes o'r radd flaenaf, byddwn wedi colli ei hemynau oni bai fod cyfeillion wedi eu cofio a'u cofnodi a threfnu eu cyhoeddi ar ôl iddi farw. Oherwydd nid oedd unrhyw fwriad gan Ann ei hun i'w phenillion gael eu cyhoeddi na'u defnyddio gan gynulleidfaoedd. Yn wir, gwrthodai bob anogaeth i'w cyhoeddi. 'Na', meddai; 'rwy'n eu cyfansoddi er cysur i mi fy hun.' Hynny yw, i Ann roedd ei phenillion yn debyg i gofnodion mewn dyddiadur ysbrydol personol.

Ond beth bynnag yw'r esboniad am y prinder emynau gan fenywod, mae'n wir dweud mai ychydig iawn o emynau Cymraeg gan fenywod o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif sydd wedi cyrraedd ein casgliadau emynau. Dim ond gwaith hanner dwsin o emynyddesau Cymraeg o'r canrifoedd hynny sydd yn y llyfr emynau cydenwadol, *Caneuon Ffydd* (2001), er enghraifft. Mae 14 emyn gan Ann Griffiths yn y casgliad hwnnw, ond am y pum emynyddes arall, un emyn yr un o'u gwaith sydd yn *Caneuon Ffydd*, ac eithrio Mary Owen, oherwydd mae dau o'i hemynau hi yn y casgliad, sef 'Caed modd i faddau beiau' ynghyd â'i hemyn mwyaf poblogaidd erbyn heddiw, sef 'Dyma gariad, pwy a'i traetha?'

Ganed Mary yn Ynysymaerdy, Llansawel (*Briton Ferry*), tua dwy filltir i'r de o dref Castell-nedd, yn 1796, yr ieuengaf o bum plentyn David a Mary Rees. Byddai hi'n byw yn Llansawel a'r cyffiniau agos am y cyfan bron o'i bywyd, gan farw yno yn 1875. Ac yn ystod ei bywyd hir, bu'n dyst i newidiadau aruthrol yn Llansawel ei hun ac yn yr ardaloedd cyfagos yn sgil y diwydiannu enfawr a welwyd ynddynt yn ystod y 19eg ganrif. Er enghraifft, ychydig dros 250 oedd poblogaeth Llansawel yn 1801, ond erbyn i Mary farw yn 1875 roedd wedi cynyddu i tua 5,000.

Cafodd Mary – 'Mary Rees' fel yr oedd yn ei hieuenctid – fagwraeth Gristnogol. Roedd ei thad yn ddiacon yn eglwys Annibynnol Maes-yr-haf, Castell-nedd – yr eglwys Ymneilltuol hynaf yn y rhan honno o Forgannwg, a'i gwreiddiau yn mynd yn ôl i gyfnod y Piwritaniaid yn yr 17eg ganrif – a chofrestrwyd cartref y teulu yn Llansawel yn fan ar gyfer addoliad Ymneilltuol yn Ebrill 1809. Yna, ar ochr ei mam, Mary Bateman, perthynai i deulu amlwg ym mywyd crefyddol ardal Llansawel a'r tu hwnt, ac yn eu plith Matthew Henry (1662–1714), awdur esboniad enwog a dylanwadol iawn ar y Beibl.

Cafodd Mary ei hun dröedigaeth yn 1814, yn 18 oed, yn sgil gwrando ar bregeth yng nghapel Annibynnol Ebeneser, Abertawe, gan Matthew Wilks (1746–1829), un o sylfaenwyr Cymdeithas Genhadol Llundain yn 1795 – cymdeithas a dderbyniodd lawer o gefnogaeth gan Annibynwyr a Methodistiaid Cymru o'i dechreuadau. Soniwyd mewn erthygl flaenorol yng nghyfres 'Llys a Llan' (yn rhifyn Hydref 2024) am gefnogaeth frwd rhai o bobl Castell-nedd a'r cyffiniau, gan gynnwys teulu'r diwydiannwr pwysig, Joseph Tregelles Price (1784–1854), i'r mudiad cenhadol ac i'r mudiad i ddileu caethwasiaeth, ac roedd Mary hithau yn un o'r rhai a gefnogai'r achosion hynny.

Yn Awst 1825, newidiodd Mary ei chyfenw o Rees i Davies wrth briodi Capten Thomas Davies. Roedd ef yn adeiladydd a pherchennog llongau yng Nghastell-nedd, a dywedir iddynt dderbyn llestri hardd yn darlunio ei longau yn anrheg briodas. Ganed dwy o ferched iddynt, sef Mary Ann yn 1828 a Sarah yn 1830. Ond bu trychineb. Yn Rhagfyr 1830, wrth i'w long *Providence* gludo mwynau o Gastell-nedd i Gernyw, suddodd mewn storm yng nghyffiniau Ynys Wair (*Lundy*) a boddwyd Thomas. Roedd ei ferch, Sarah, ond yn wyth mis oed ar y pryd.

Newidiodd Mary ei chyfenw eto yn 1836, pan briododd Robert Owen, un a aned yn ardal Llanfyllin yn 1790 ac a fu'n weinidog yn sir Gaernarfon cyn symud i eglwys Annibynnol Seion, Cwmafan, yn 1834. Ond cyn diwedd ei gyfnod yng Nghwmafan, daeth i'r amlwg fod Robert wedi mynd 'i afael y ddiod'. Symud i Abertawe yn 1840 fu ei hanes ef a Mary a'i merched. Yna, yn 1841, derbyniodd alwad i ofalu am Garmel, eglwys yr Annibynwyr yn Llansadwrn, ger Llanwrda yn sir Gaerfyrddin. Ond rhoddodd Robert y gorau i'w weinidogaeth yno yn 1844, a bu'n grwydryn o alcoholig yng ngogledd Cymru o hynny hyd ei farwolaeth yn 1857. Yn ganlyniad, dychwelodd Mary a'i merched i Lansawel, ac yno y treuliodd hi weddill ei bywyd. Ac yn Llansawel hefyd y bu farw ei gŵr, Robert Owen, gan i Mary drefnu iddo ddod yno yn ei salwch olaf, iddi hi allu gofalu amdano.

Bywyd helbulus a gafodd Mary ar lawer cyfrif, felly, a dweud y lleiaf. Ond mae pob tystiolaeth yn awgrymu fod y ffydd gadarn a fynegir yn ei hemynau wedi aros yn nodwedd ar ei bywyd hyd y diwedd.

Dechreuodd Mary ysgrifennu emynau pan oedd tua 15 mlwydd oed, ac erbyn ei chyfnod yng Nghwmafan, roedd wedi llunio digon iddi allu cyhoeddi casgliad o 71 ohonynt yn 1839 dan y teitl *Hymnau ar Amryw Destunau*. Dywedir ar yr wynebddalen, gyda llaw, mai yng Nghwmbychan yr oedd yn byw yr adeg honno – sef enw arall ar bentref Cwmafan.

Roedd y bardd a'r beirniad llenyddol Caledfryn (William Williams, 1801–69), gweinidog gyda'r Annibynwyr a oedd yn ffigur blaenllaw ym mywyd llenyddol a chrefyddol Cymru yn ei ddydd, yn gyfaill i Mary Owen. Dywedir y byddai Mary yn hoff iawn o lunio penillion er mwyn 'corffori ei theimlad' yn dilyn clywed pregethau, ond nad oedd ganddi unrhyw fwriad i'w cyhoeddi nes i Galedfryn – a oedd yn weinidog yng nghapel Pendref, Caernarfon, ar y pryd – alw heibio rywbryd a'u gweld a chynnig trefnu eu hargraffu'n gyfrol. Ef hefyd a luniodd y gair o gymeradwyaeth, dyddiedig 18 Medi 1839, sydd ar ddechrau'r gyfrol honno. Ynddo, dywed Caledfryn nad oedd ganddo'r amheuaeth leiaf y byddai'r 'emynau blasus a dirodres' oedd yn y gyfrol 'yn foddion i ddiddanu a chysuro' Cristnogion ar eu taith trwy'r byd. Dywedodd hefyd y byddai'n hoffi gweld 'ychwaneg o wragedd crefyddol yn efelychu mwy ar y Gristiones ostyngedig a hunanymwadol hon, drwy droi eu doniau a'u galluoedd' i'r un cyfeiriad â hi.

Profodd *Hymnau ar Amryw Destunau* (1839) yn hynod boblogaidd. Aeth i ail argraffiad yn 1840, pan oedd Mary Owen yn dal yng Nghwmafan, ac yna i drydydd a phedwerydd argraffiad yn 1841 ac 1842. Dyna, felly, bedwar argraffiad mewn pedair blynedd! Erbyn argraffiad 1842, roedd cyfanswm yr emynau wedi tyfu o 71 i 82. Ac os byw ac iach, trown y tro nesaf i edrych ar gynnwys ei chyfrol o emynau ac ar nodweddion Mary Owen fel emynyddes.

(*I'w barhau*)

## Difyrion Digidol Deian ap Rhisiart

Yn gynharach eleni, lansiodd Gwreiddiau Gwyllt gronfa adnoddau natur newydd sbon sy'n lle i chwilio am adnoddau natur yn y Gymraeg ar gyfer pob oed. https://www.gwreiddiaugwyllt.cymru/ Yr ydym yn ffodus iawn o'r adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg ar gyfer byd natur fel grŵp Llên Natur gyda'i Bywiadur ac mae'r adnodd hon yn ychwanegiad gwych. Nod prosiect Gwreiddiau Gwyllt a arweinir gan Mentrau Iaith Cymru ac a ariennir gan y Gronfa Dreftadaeth yw hybu twf mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â byd natur yn y Gymraeg, gan gynnwys defnydd o dermau Cymraeg ar fywyd gwyllt.

I chwilio'r gronfa, mae yna opsiynau i bobl o bob oed, gyda dewislen cynefinoedd sy'n rhoi dewis yn amrywio o 'arfordir', 'gardd', 'gwlyptir', 'môr' a 'mynydd' ymhlith nifer eraill o gynefinoedd. Yna, mae yna wahanol ystod oedran i'w ddewis – 5-7 hyd at oedolion. Mae'r adnoddau un ai'n ddogfennau cynhwysfawr ar gyfer oedolion neu'n bamffledi i ddiddanu plant bach. Os y dewisir ystod oed 7-10 a chynefin 'Rhos a Mynydd' er enghraifft, mae yna sawl adnodd ar gyfer gloynnod byw i blant a chardiau adnoddau er mwyn gwasgaru hadau i blant. Ceir hefyd lyfryn llawn syniadau am weithgareddau yn yr awyr agored yn ymwneud â natur gan Ymddiriedolaeth John Muir gyda chefnogaeth Urdd Gobaith Cymru. Pe byddech yn dewis 'dŵr croyw' fel testun, ac 'oedolion', fe ddaw 'Canllaw adnabod infertebratau'r pwll' sy'n adnabod infertebratau mewn dŵr pwll fel gwas y neidr a malwod.

O ran oedolion, os rhowch 'môr' ac 'oedolion' fel cyfuniad, mi ddaw'r ap hwn 'Pl@ntnet' i fyny sydd ar gael yn y Gymraeg: https://identify.plantnet.org/cy er mwyn adnabod planhigion drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'i trefnir fesul gwahanol fflora thematig a fflora daearyddol. Dewiswch yr un sy'n cyfateb i'ch rhanbarth neu faes diddordeb. Yn ôl y wefan, "Os nad ydych chi'n gwybod beth i'w ddewis, dewiswch "Fflora'r Byd" sydd â'r sylw ehangaf ond a fydd yn rhoi canlyniadau llai cywir na fflora â mwy o ffocws." Mi wnes i dynnu llun o genhinen Pedr a'i lwytho ar y wefan ac fe wnaeth ei hadnabod yn gywir gan roi'r enw yn Saesneg a Lladin. Dyma ffordd wych o ddod i adnabod planhigion a bywyd gwyllt yn iaith y nefoedd. Mae'r ap hwn yn addas i bawb o 11 oed ymlaen.

Mae gwrando ar *Galwad Cynnar* ar BBC Radio Cymru, ar foreau dydd Sadwrn drwy BBC Sounds wastad yn bleser ac mae'n ysgogi rhywun bob tro i fynd allan i'r awyr iach i chwilota a gwneud yn fawr o'r bywyd gwyllt fel unigolion ac fel teulu, ond cofiwch erbyn hyn mae gennych chi ap 'Pl@ntnet' sydd yn eich galluogi i adnabod planhigion drwy gyfrwng y Gymraeg a phob math o adnoddau defnyddiol iawn ar Gwreiddiau Gwyllt. Ewch amdani!

Os hoffech gymorth neu gyngor ar unrhyw agwedd o'r byd digidol, cysylltwch gyda mi:
deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

***Gwasanaethau'r Wythnos Fawr a'r Pasg***

Cynhaliwyd gwasanaeth Cwmplin wythnosol dros Zoom drwy gydol cyfnod y Grawys. Gwasanaeth o fyfyrdod oedd yn edrych yn benodol ar Gredo Nicea.

Dechreuodd y gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar Sul y Blodau yn neuadd yr eglwys gyda defod bendithio'r croesau palmwydd cyn gorymdeithio i mewn i'r eglwys ar gyfer y gwasanaeth.

Nos Fawrth, 15 Ebrill, cafwyd gwasanaeth Gorsafoedd y Groes a Chwmplin ac ar nos Iau Cablyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid, Diosg yr Allor a Gwylnos.

Ddydd Gwener y Groglith, dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd cynhaliwyd gwasanaeth cyd-enwadol o fyfyrdod, darlleniadau ac emynau gyda'r Parch. Ddr Rosa Hunt, gweinidog Eglwys Tabernacl yr Ais, yn pregethu.

Nos Sadwrn y Pasg cynhaliwyd Gwylnos a Chymun Cyntaf y Pasg.

Roedd yr eglwys yn edrych yn arbennig o hardd ar gyfer gwasanaethau o'r Cymun Bendigaid fore'r Pasg. Diolch i Gylch Dewi am eu holl waith yn sicrhau hyn.

***Caerdydd Dros Wcráin***

Brynhawn Sadwrn, 19 Ebrill, trefnodd 'Caerdydd Dros Wcráin' ffair Pasg ar lawnt Eglwys Dewi Sant. Dyma'r grŵp sy'n rhoi cymorth i geiswyr lloches o Wcráin yng Nghaerdydd. Judith Poulson oedd yn cydlynu'r digwyddiad.

***Diolchiadau***

I'r Cyfarwyddwr Cerdd a Chôr yr Eglwys am eu holl waith paratoi ar gyfer gwasanaethau Gwener y Groglith a Sul y Pasg.

I Wyn Mears, golygydd *Cloch Dewi*, am ei waith caled yn cynhyrchu rhifyn arall diddorol a deniadol.



## TABERNACL, YR AIS



***Efa Gruffudd Jones a Rhodri ab Owen***

Roedd y festri uchaf dan ei sang ar gyfer uchafbwynt calendr y Gymdeithas, sef ein Cinio Gŵyl Ddewi. Pleser oedd croesawu un o'n haelodau newydd, Efa Gruffudd Jones, i'n hannerch, a chawsom sgwrs ddifyr am ei magwraeth yn Nhreforys ac am ei gyrfa amrywiol gyda'r Urdd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac, wrth gwrs, ei gwaith fel Comisiynydd y Gymraeg.

Diolch i Ruth a Gill am drefnu gwledd ar ein cyfer, ac i'r llu o wirfoddolwyr eraill a helpodd i weini'r bwyd, clirio'r byrddau a golchi'r llestri.

Diolch hefyd i Denzil am gyfansoddi cerdd i Efa, a ganwyd gan Barti Bechgyn y Tab.

Nid pawb fydd yn cofio nac yn adnabod Eirlys Roderick a fu farw ddechrau mis Ebrill. 'Roedd hi a'i gŵr Caerwyn yn ffyddloniaid yr oedfa fore hyd nes y bu farw Caerwyn rai blynyddoedd yn ôl. Roedd y ddau yn enedigol o Ystradgynlais, ac athrawes oedd Eirlys wrth ei galwedigaeth, Cofiwn amdani fel person tawel a siriol, ac un oedd â gwên bob amser ar ei hwyneb. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w phlant Alyson, Alan a Catherine, hwythau yn selogion yr ysgol Sul yn y 1960au.

Athro arall o orllewin yr hen Forgannwg a ymgartrefodd yn ein plith oedd Dafydd Williams, ond un o selogion oedfa'r hwyr ar y cyfan oedd Dafydd. Wynebodd afiechyd anodd dros y degawd diwethaf gyda dewrder a phositifrwydd, Roedd yntau yn ŵr tawel ac addfwyn, bob amser â gwên ac yn barod am sgwrs. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â'i wraig Jen a'u plant Sioned a Rhys.

Colled arall fu Virginia Thomas, gwraig y diweddar Mervyn, gynt o Landaf. Bu mewn cartref gofal am rai blynyddoedd, ond fe'i calonogwyd pan fedyddiwyd un o'i hwyrion, Aled, yn gymharol ddiweddar. Cydymdeimlwn â'i phlant, Robert a Janet, ac â'u teuluoedd. Yn Sir Benfro 'roedd gwreiddiau dwfn Virginia.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod mis Ebrill cawsom gyfle i groesawu'r Parch. Robin Samuel a Mr Marc John Williams. Ar Sul y Blodau cawsom wasanaeth cymun dan ofal ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan. Braf oedd gweld cynifer o blant yn mynychu'r ysgol Sul y bore hwnnw. Cynhelir yr ysgol Sul nesaf ar 22 Mehefin.

Ar Sul y Pasg roedd cyfle i ymuno gyda'r aelodau yn Salem, Treganna.

Rydym yn danfon ein cofion at yr aelodau sy'n methu â bod gyda ni oherwydd anhwylder. Dymuniadau gorau i Mair Jenkins a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Ebrill.

## YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Golchwyd ein traed am y tro cyntaf yng Nghapel Mair yr Eglwys Gadeiriol ddydd Iau Cablyd. Cynhaliwyd gwasanaeth ddydd Sul y Pasg yn Llys yr Esgob o dan ofal yr Esgob Mary a'r Parch Andrew. Mae'r gwasanaethau arferol cyfrwng -Cymraeg yng ngofal y Parchedigion Andrew, Siôn, Alison, Dyfrig a/neu Rhys. Croeso cynnes i bawb ymuno, gyda thaflen trefn y gwasanaeth yn ddwyieithog. Bendith a thangnefedd.

## EGLWYS Y CRWYS

### *Cyfarchion*

Llongyfarchiadau i Rol Williams ar ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ganol mis Ebrill. Yn enedigol o Flaenau Ffestiniog, symudodd i Gaerdydd i weithio yn Swyddfa'r Dreth Incwm. Bu Rol a'i wraig Nel yn aelodau ffyddlon, gyda Rol yn weithgar am flynyddoedd gyda'r Gymdeithas Ddrama. Mae ei ddwy chwaer yn parhau i fyw yn y Blaenau, yr hynaf yn 107 a'r ieuengaf yn 98 oed. Yn amlwg mae glaw Blaenau Ffestiniog yn iachusol iawn!

Llongyfarchiadau i Daniel a Kay Roddick ar enedigaeth eu merch fach, chwaer i Ioan ac wyres arall i Winton a Cennin Roddick.

Anfonwn ein cofion gorau at Cerian Angharad a gafodd ei tharo yn wael tra ar ei gwyliau yng Nghernyw. Treuliodd amser yn yr ysbyty yn Truro cyn cael ei throsglwyddo i'r Ysbyty Athrofaol yng Nghaerdydd. Brysia wella, Cerian.

Rydym yn anfon ein cyfarchion at yr holl aelodau sy'n wael eu hiechyd ac yn gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal.

### *Aelodaeth*

Hyfryd, fore Sul y Pasg, oedd derbyn dau aelod newydd i'n plith sef William a Susan Owen. Mae Mrs Owen yn ffyddlon iawn i'r oedfaon boreol ac mae Mr Owen yn cyfrannu'n fisol i'r Gadwyn. Mae eu mab, Robin Pryderi Owen, eisoes yn aelod ac yn flaenor ffyddlon ac yn cyflawni llawer o waith yn yr Eglwys.

### *Coffi ar Gamera*

Aeth criw Coffi ar Gamera am ginio yn yr Hen Fwthyn, Llys-faen, i ddathlu'r Pasg a chafwyd amser difyr a bwyd blasus. Diolch i Cerian Angharad am drefnu.

### *Gwasanaethau'r Groglith a'r Pasg*

Pleser oedd croesawu ein cyfeillion o Eglwys Minny St. i'r Oedfa Gymun fore Gwener y Groglith. Arweiniwyd y defosiwn gan Thomas Williams, y weddi gan Hannah Thomas, a'r myfyrdod gan y Parch. Owain Llŷr Evans. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan Thomas Williams.

Braf oedd cael ymuno yng Ngwasanaeth y Groglith Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Dewi Sant brynhawn Gwener y Groglith. Arweiniwyd gan y Parch. Dyfrig Lloyd. Cafwyd neges rymus gan y Parch. Rosa Hunt.

Fore Sul y Pasg, roedd yr oedfa foreol yn y Crwys dan ofal y Gymdeithas Ddrama. Diolch i Bob Roberts am gydlynu'r gwasanaeth ac i bawb a gymerodd ran. Croesawyd y Parch. Robert Owen Griffiths i'n harwain yn yr oedfa hwyrol.

## BETHEL, PENARTH

Daliwn i gofio'n annwyl am Eirlys sy'n derbyn gofal yn Ysbyty'r Barri.

Hyfryd oedd clywed gan Gill a Pat am daith bleserus ddiweddar i Fflandrys, gwlad Belg yn rhan o ddathliad 60 oed Cantorion Ardwyn Caerdydd. Buont yn canu yn eglwys hardd, hynafol Sint Michelskerk yn ninas Ghent a hefyd yn cydganu gyda Koorwel yn ninas Leuven. Yn ogystal â chael gwefr canu bu'r ymweliad yn gyfle bythgofiadwy i brofi cyfeillgarwch a diwylliant arall.

Ar 6 Ebrill aeth ein gweinidog at Efengyl Luc (5, 1-11), yr hanesyn sy'n cloi gyda siars Iesu i Bedr, '…o hyn allan dal dynion y byddi di', gan bwysleisio i bawb fod yn effro i'r annisgwyl ar alw Duw.

Siân Meinir oedd yn ein tywys ar Sul y Blodau. Dewisodd yn sail i'w myfyrdodau y disgrifiad o weddnewidiad Iesu (Luc 9, 28-36) a geiriau Pedr yn ei ail lythyr (1, 3-10). Y thema gyffredin oedd y trawsnewid a'r canlyniadau a all ddigwydd ym mywyd pob un.

Yn naturiol ddigon ar Sul y Pasg clywsom yr hanes cwbl annisgwyl fel y mae yn Luc . 24,1-12. Bu ein gweinidog yn pwysleisio nodwedd arbennig holl hanesion yr Atgyfodiad, sef, newid.

Ar Sul olaf Ebrill cawsom arweiniad heriol y Parch. Evan Morgan. Seiliodd ei genadwri ar adnod 35 o Bennod 12 o Efengyl Ioan, 'Rhodiwch tra bo'r goleuni gennych'. O wneud hyn, y canlyniad i ni yw bod yn bobl sy ddim yn rhwygo nac yn rhwystro ond yn rhyfeddu.

Hyfrydwch pur i bawb yn oedfa Sul y Pasg oedd tystio i fedydd Cadi Efa Medi. Er mawr ryddhad i'r gweinidog bu'r faban yn gwbl fodlon ar y trefniant, heb brotest.



*Cantorion Ardwyn yn Sint Michielsplein, Ghent*

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parch. Owain Llŷr Evans

### *Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul*

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfa 4 a 18 Mai ac yn oedfaon boreol 11 Mai. Yn oedfa hwyrol 4 Mai gweinyddwyd y cymun. Byddwn yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu Eglwys y Crwys nos Sul 11 Mai a chawn gwmni'r Parch. Dylan Rhys Parry yn oedfaon 25 Mai. Mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod yn ystod oedfaon bore Sul 4, 18 a 25 Mai; bydd ein pobl ifanc (PIMS) ynghyd am 17:00 ar 4 Mai. Bydd gweithgaredd penodol i'n teuluoedd ifanc, Teulu Minny, wedi'r oedfa foreol 18 Mai.

### *Gweithgarwch y mis*

Mae gweithgareddau mis Mai yn cynnwys cyfle i fwynhau pryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul, 18 Mai. Ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, trefnwyd taith ar fws i Barc Margam a'r ardal ddydd Mercher, 7 Mai. Gan ddechrau nos Fawrth, 13 Mai, cynhelir cyfres fer newydd dan arweiniad ein Gweinidog dros y misoedd nesaf - cyfle i "Drafod a Chreu". Bydd yr ail yn y gyfres bythefnos yn ddiweddarach ar 27 Mai. Fel rhan o'n cefnogaeth i Wythnos Cymorth Cristnogol ganol Mai, cynhelir Te Cymreig yng Nghanolfan Gymunedol yr Eglwys Newydd brynhawn Sadwrn, 17 Mai a bydd cyfle pellach am baned a theisen wedi'r oedfa foreol 18 Mai.

### *Genedigaeth*

Croeso cynnes i Llew Patchell, mab i Heledd a Rhys. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT



Roedd llygaid y byd ar Sgwâr Sant Pedr ddydd Sadwrn 26 Ebrill yn gwylio angladd y Pab Ffransis. Ry'n ni yn yr Eglwys Gatholig wedi colli ein Pab, olynydd Sant Pedr, ond roedd Ffransis hefyd wedi cyffwrdd cymaint o bobl drwy ei ostyngeiddrwydd, ei wên barod a'i gariad amlwg at bobl yr ymylon.

Cynhaliwyd gwasanaethau Requiem mewn nifer fawr o eglwysi Catholig pan ddaeth y newyddion am ei farwolaeth. Yng Nghaerdydd, roedd y Gadeirlan yn Heol Siarl yn brysur ar ddwy noson, gyda dau wasanaeth yn cael eu cynnal i weddïo a mynegi tristwch, galar a chydymdeimlad ar farwolaeth y Pab Ffransis, ac i ddatgan hyder yn nhrugaredd yr Arglwydd atgyfodedig a gweddïo dros enaid y Pab.

Daeth cynulleidfa o blwyfolion ac offeiriaid yr Archesgobaeth ynghyd ar 23 Ebrill mewn Offeren i weddïo am orffwys i enaid y Pab. Yr Archesgob Mark O'Toole oedd Llywydd yr Offeren, a soniodd yn ei bregeth am ffydd a gobaith y Pab a'i galluogodd i gyflawni cymaint yn ei ddeuddeg mlynedd fel pennaeth yr Eglwys Gatholig. Roedd cariad Ffransis at bobl yn amlwg yn ei wên pan fyddai'n cyfarfod â nhw, a'i ofal dros y tlodion a phobl ar gyrion cymdeithas yn cyflwyno neges cariad Crist.

Ar 24 Ebrill cafwyd gwasanaeth arbennig o Hwyrol Weddi – Gosber – pan ddaeth nifer fawr o gynrychiolwyr crefyddol a dinesig, ynghyd â chynrychiolwyr o'r eglwysi Cristnogol, at ei gilydd i weddïo ac i ddangos parch a chydymdeimlad â'r Eglwys. Roedd hen batrwm gweddi'r Eglwys – y salmau a'r gweddïau a'r flaengan syml – yn creu awyrgylch o dangnefedd, o rannu tristwch ond o gefnogaeth hefyd.

Ymhen wythnos neu ddwy, byddwn yn gobeithio gweld Pab newydd yn cael ei ethol. Gweddïwn i gyd am olynydd teilwng i'r annwyl Bab Ffransis, un fydd yn annog ei bobl i fyw'r ffydd gyda gobaith a chariad, fel bod neges Iesu yn cael ei chlywed yn y byd sydd ohoni.

## EBENESER




***Dathlu***

Ddydd Sul 6 Ebrill cawsom baned a chacen, ar ôl gwasanaeth y prynhawn, i ddathlu 30 mlynedd Alun Tudur fel ein gweinidog. Cafodd Alun rodd annisgwyl pan gododd Eirian Dafydd i adrodd cywydd sgwennwyd ganddi i nodi'r 30 mlynedd. Diolch iddi am gywydd wych.

Diwinydd ddaeth i'n dinas,
un o dri'n hanu o dras
a alwyd i fugeilio'n
wylaidd Ei braidd hyd ein bro.
Rhoi'r Gair, rhoi'r bara a'r gwin
i aelod ar ei ddeulin,
a chredu'n hedd y weddi
a'i phŵer i'n hadfer ni.

Dod i'n haelwyd wna Alun,
y tyst, yn gyfaill cytûn,
yn awr gwae, mewn awr o gân,
ac o arlwy y gorlan
gweini'r gwlith o fendithion
ddaw o ras porfeydd yr Iôn.
Gweinidog i ni ydyw
a'n brawd ers tri degawd yw.

***Noson Sgitls***

Nos Sadwrn 12 Ebrill roedd yna griw o Ebeneser a rhai ffrindiau yn cystadlu'n frwd yn erbyn ei gilydd mewn gornest sgitls yn ystafell gefn tafarn y Maltser's Arms, yr Eglwys Newydd. Cawsom bryd o fwyd hanner amser i'n nerthu ar gyfer yr ail hanner. Diolch i'r criw ddaeth i'r noson ac i Dai Williams am drefnu'n wych. Llwyddwyd i godi £351 i Hosbis y Ddinas a Marie Curie.

***Gorymdaith y Groglith***

Daeth tua 70 at ei gilydd o blith chwech o eglwysi'r Eglwys Newydd i gynnal gorymdaith o eglwys i eglwys a gwasanaeth byr o chwarter awr ym mhob un. Cychwynnodd y daith yn Eglwys St Teilo, gan symud i Ebeneser yn y Ganolfan, ymlaen i'r Eglwys Fethodistaidd ac yna i Eglwys y Santes Fair, Eglwys Bethel, a gorffen yn Ararat, Cafwyd paned a thoesi croes poeth i orffen y daith.

***Llanw***

Aeth criw ohonom o Ebeneser ac Angor, Grangetown i Ŵyl Gristnogol Llanw yn Llangrannog, 21 i 25 Ebrill. Cyfle i addoli, dysgu, tyfu, rhannu, gweddïo, chwarae, cael hwyl, a bwyta. Yn blant, ieuenctid ac oedolion ifanc a hŷn, daeth dros 500 i'r Ŵyl.



## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

***Bore Siarad Cymraeg***

10 Mai yn Hyb Rhiwbeina (CF146EH) am 10.30am bydd Nia Brown yn sôn am y grefft o nyddu. Dyma'r cyfarfod olaf tan fis Medi. Croeso cynnes i bawb.

***Llongyfarchiadau***

Hyfryd oedd clywed am eni ŵyr bach newydd i Selwyn Williams. Mae Cai Thomas yn fab i Nerys a Tom King a brawd bach newydd i Efan. Llongyfarchiadau a phob bendith iddynt fel teulu.

***Gwyliau'r Capel***

Yn ystod wythnos y Pasg aeth tua 50 o'r capel ar dridiau o wyliau i ganolfan Gristnogol yn ardal Ledbury yn swydd Henffordd. Cafwyd amser hyfryd o ymlacio, cymdeithasu, chwarae gemau, cydweddïo a gwrando ar neges ryfeddol y Pasg. Braf oedd gweld pawb o bob oedran yn mwynhau cwmni ei gilydd.

***Murlun yng Nghaernarfon***

Ddechrau mis Ebrill bu Lois Adams yn brysur yng Nghaernarfon yn cynorthwyo capel Caersalem i greu murlun gymunedol. Bu rhai o blant ysgolion yr ardal yn hapus iawn yn cynnig syniadau a helpu gyda'r gwaith. Y bwriad oedd cysylltu â'r gymuned a hefyd gael cyfle i rannu'r ffydd Gristnogol.

***Cyfarfodydd y Pasg***

Roedd yn hyfryd cael cwrdd â'n gilydd i gofio ac i ddathlu'r Pasg. Fore Gwener y Groglith cyfeiriodd Emyr ein sylw at hanes rhyfeddol y lleidr ar y groes a geiriau grasol Iesu Grist wrtho," Heddiw byddi gyda mi ym mharadwys". Yr unig beth oedd gan y dyn yma i'w gynnig oedd ei ffydd a'i bechod, ond roedd hynny'n ddigon.

Ond atgoffwyd ni bod dau leidr yn hongian, un bob ochr i Iesu Grist y diwrnod hwnnw ond un yn unig a ofynnodd i Grist ei gofio. Sylw J C Ryle, esgob Anglicanaidd cyntaf Lerpwl, i'r hanes oedd dweud bod un lleidr wedi troi mewn ffydd at Iesu Grist fel na fyddai angen i neb anobeithio, ond un yn unig oedd fel na fyddai i neb gymryd hynny'n ganiataol.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

***Sylw ddydd Mawrth 22 Ebrill 2025***

Ddoe, 'roedd hi'n ddydd Llun y Pasg – ddoe bu farw'r Pab Ffransis – ychydig oriau yn unig wedi iddo ddymuno "Pasg hapus" i'r dorf enfawr yn Sgwâr San Pedr ar Sul y Pasg. Mae'r teyrngedau lu wedi llenwi'r bwletinau newyddion a'r wasg - un gan Brif Weinidog Cymru, Eluned Morgan:

*Atgoffodd bob un ohonom nad tasg wleidyddol neu gymdeithasol yn unig yw'r frwydr yn erbyn tlodi, newid hinsawdd ac anghyfiawnder, ond galwad foesol.*

Heddiw bydd miliynau o bobl ar draws y byd yn dathlu Diwrnod y Ddaear [*Earth Day*] – a hynny am y 55ed tro. Dathliad gan fudiadau amgylcheddol ydyw, a gychwynnodd yn yr Unol Daleithiau ym 1970, ond sy, ers 1990, wedi tyfu'n un rhyngwladol, gyda'r neges glir – y pwysigrwydd o warchod ein hamgylchedd. Mae dynodi Diwrnod y Ddaear wedi dylanwadu ar wladwriaethau i wella eu hystad - e.e. drwy fabwysiadu neu gryfhau deddfwriaeth amgylcheddol; drwy gynlluniau plannu coed; dewis ffyrdd amgen a chynaliadwy o amaethu; meithrin cynlluniau addysgu priodol; a thrwy sicrhau bod y materion amgylcheddol ar frig y trafodaethau lleol a rhyngwladol.

Yng ngeiriau'r Pab Francis un tro:

*Heddiw fe ddathlwn Ddiwrnod y Ddaear. Fe anogaf bawb i weld y byd drwy lygaid Duw y Creawdwr: mae'r byd yn amgylchedd i'w warchod, ac yn ardd i'w meithrin. Ni ddylai'r berthynas rhwng dynoliaeth a natur gael ei chamddefnyddio er budd trachwant ac elw, ond dylid yn hytrach gadw'r cytgord dwyfol sy'n bodoli rhwng creaduriaid a'r Creawdwr o fewn rhesymeg parch a gofal, fel y gall fod o wasanaeth i'n cyd-ddyn, a chenedlaethau'r dyfodol.*

*Mae'r greadigaeth er budd pob un, yn etifeddiaeth dynolryw, ac yn gyfrifoldeb i bawb.*



***Y Murlun***

# Cymrodorion Caerdydd

**Coroni Tymor Cymrodorion Caerdydd drwy gofio am Gwyn Alf Williams.**

Gorffennwyd tymor Cymrodorion Caerdydd gyda chynulleidfa niferus yn gwrando ar gyflwyniad bywiog a difyr y Dr Gethin Matthews ar yr hanesydd athrylithgar Gwyn Alf Williams. Tarddai union eiriad y testun o erthygl a ymddangosodd yn y cylchgrawn *Barn* ym 1984 pan oedd yr hanesydd ar fin lawnsio ei yrfa fel cyflwynydd teledu - 'Yr Hanesydd a'i Gymru'. Olrheiniwyd bywyd Gwyn Alf o'i fagwrfa yn Nowlais, drwy ei gyfnod fel academydd disglair, at ei ail yrfa fel dehonglwr hanes Cymru.

Ysgrifennodd Geraint H. Jenkins mai drwy ei waith fel cyflwynydd teledu 'cyflawnodd Gwyn fwy dros hanes Cymru fel pwnc nad a wnaethai neb erioed o'i flaen.' Yn y cyflwyniad dangoswyd clipiau o Gwyn Alf wrth ei waith, gan gynnwys ei grynhoad ysbrydoledig o effaith Owain Glyndŵr ar y Cymry, fel prawf o hyn. Eleni byddwn yn nodi can mlynedd geni Gwyn Alf, a thri deg o flynyddoedd ers ei farwolaeth, felly roedd yn gyfle amserol i'r gynulleidfa gael eu hatgoffa o ba mor ffodus oedd Cymru yn ôl yn y 1980au a'r 1990au i gael hanesydd llawn angerdd i gynnig dehongliad cyffrous o'n gorffennol.

Diolchwyd i'r Dr Dylan Foster Evans am ei lywyddiaeth dros y flwyddyn.

Bydd tymor nesaf Cymrodorion Caerdydd yn cychwyn ddechrau Hydref ac mae croeso cynnes i bawb ymuno.

*Ion Thomas*

# Pobol y Rhigwm

Yn fwy aml na heb, mae cael llinell – yn hytrach na theitl – yn destun, yn cynnig mwy o her. Mae gofyn gwau'r cynnig o amgylch y llinell osodedig, sy'n tueddu i gyfyngu rhywun o ran cwmpas a mynegiant. Da, felly, oedd cael deuddeg o dribannau y mis hwn. Gwell fyth yw gallu dweud bod pob triban yn gywir ei fydryddiaeth. Gan fod 'na ddwsin i'w didoli, felly, dyma fwrw ati'n syth. Yn ôl fy arfer, erbyn hyn, byddaf yn manylu ar y tri gorau, ynghyd ag ambell un a ddaeth yn agos ati. Cyn hynny, dyma frawddeg am bob cynnig arall, yn y drefn y ces i nhw yn hytrach na threfn teilyngdod.

Mae Am-rant wedi cynganeddu'r triban ar ei hyd (nid bod unrhyw reidrwydd i wneud hynny, er bod y llinell osodedig, digwydd bod, yn gynghanedd groes!), ond tybiaf, wedyn, fod hynny wedi'i gyfyngu'n ormodol, gan fod ystyr ddyfnach y triban yn aneglur i mi – ai dyfodiad anochel un o stormydd bywyd yw'r un yn ail hanner y triban, ar ôl ennyd heddychlon? Mae gan Hen Wennol 1 driban o safon, sy'n chwarae ar yr hen ddihareb 'un wennol ni wna wanwyn', ac mae'r ail hanner yn cyfleu'n hyfryd yr ymdeimlad o gyffro'r funud. Os mai cynnig arall gan yr un ymgeisydd yw Hen Wennol 2, mentraf ddweud bod yn well gyda fi'r un cynta, ond mae triban Hen Wennol 2 wedi'i weithio'n dda, ac er yn gwbl uniongyrchol ei ddelwedd (sef y cyffro o weld haid o wenoliaid ar ôl 'llnau ei sbectol'), mae anwyldeb diamheuol yn perthyn iddo. Felly hefyd driban Dewin, sy'n sôn mai 'dim llai na gwyrth fu'r newid byd' ac yn mynegi yn llawn parchedig ofn, mor drawiadol yw'r newid o'r gaeaf i'r gwanwyn, triban swynol. Hoffais y dweud bob dydd, a'r teimlad dynol yng nghynnig MORGAN NWG (ffugenw doniol!), sy'n ysu am 'hirddydd haf', gyda'r gwanwyn, fel petai, yn rhagflaenydd i hynny – wn i ddim yn iawn pam cynnwys cyfeiriad at Rory (McIlroy, dybiaf, y Gwyddel o golffiwr, sef hyd a lled dealltwriaeth beirniad sy ddim yn dilyn y gêm honno, mae arna i ofn!), ond deallaf iddo gael buddugoliaeth nid ansylweddol yn y Masters yn ddiweddar, felly casglaf fod 'gorchest' hirddydd haf gyfuwch â hynny, yn llygaid MORGAN NWG! Delweddu'r trawsnewidiad yn sgil y gwanwyn wna 99 (ffugenw cymwys, gyda'r cyfeiriad at hufen iâ!), ac mae'n ddelweddu byw, ond gwaetha'r modd mae mynegiant yr ail a'r drydedd linell fymryn yn herciog i'r glust. Yr un yw'r achwyniad ynghylch llinell gynta triban Aber, mae arna i ofn – mae rhywun, yn reddfol, eisiau dweud 'daeth-ant mewn llif urddasol', sy'n ffonig drwsgl (byddai 'fe ddônt mewn llif urddasol' yn union hynny), ac mae hynny'n biti garw, achos mae gweddill y triban yn deyrnged hyfryd i'r drudws ar y pier yn Aberystwyth.

Mae rhinweddau cadarn iawn i'r saith ymgeisydd uchod, ac mae'n dra phosib y bydden nhw wedi codi i dir uwch mewn mis gwannach. Yr hyn sy'n dodi'r pum sy'n weddill ar wahân yw mwy o wreiddioldeb, ond gyda'r gwreiddioldeb hwnnw wedi'i gyfleu'n gynnil a dealladwy – dyna'r gamp! Dyma'r ddau a ddaeth yn agos iawn, iawn at y podiwm:

> Mewn ennyd, mae'n wanwynol,
> Ond mud yw'r hedydd swynol.
> Fe losgwyd nythod adar mân
> Gan ddyn â'i dân difaol.

*Melyn yr Eithin*

Dyma'r unig driban sy'n sôn am y tanau gwyllt dinistriol a brofodd rhannau o Gymru yn ddiweddar, ac mae'n driban tawel o ergydiol, ac yn glyfar – mae'r ehedydd, yn llythrennol, wedi marw ar y mynydd yma. I bob golwg, llosgi bwriadol oedd yn gyfrifol am yr hyn a arweiniodd at ddinistrio byd natur. Fy unig amheuaeth yw ai'r odl wnaeth arwain at ddefnyddio 'diafol' yn ansoddair i gloi'r triban? I fi, mae'n ddewis sy, bron, allan o'i le mewn triban sy fel arall yn dwyllodrus o ddanddatganedig. Hollti blew go iawn, Melyn yr Eithin, diolch am gynnig ardderchog, sy'n dwyn y llinell osodedig i gyfeiriad annisgwyl.

> Mewn ennyd mae'n wanwynol,
> Ond cofier am y wennol!
> Ai mis Mehefin "fel y gwin"
> Fydd gwanwyn y dyfodol?

*Annhyhmhorol*

Cafwyd triban arall cryf gan Annhymhorol ac fel mae'r ffugenw'n ei awgrymu, cynhesu byd-eang yw'r testun yma. Mae'r dechneg o ofyn cwestiwn rhethregol yn y ddwy linell glo wedi talu ffordd. Dyma fynegi'r anesmwythyd y mae'n siŵr bod nifer yn ei deimlo wrth i'r tymhorau fynd ar gyfeiliorn, a'r hinsawdd Cymreig cyfarwydd yn ymdebygu i hinsawdd mannau mwy cyfandirol a'u gwinllannoedd. Gan fod tri thriban rhagorol ar y brig – ac un ohonyn nhw, hefyd, yn troi ynghylch yr un thema – mae'n rhaid hollti blew! Gallaf dderbyn fod Annhymhorol yn mynegi 'gwin' gyda'r un sain â 'gwanwyn', ond fe fyddai eraill yn clywed 'wyn', sy'n ei gwneud yn fymryn o dreth ar yr odl gyrch hon, mae arna i ofn! Wedi dweud hynny, diolch am driban pwysig, ag ôl dychymyg cadarn.

I ail bwysleisio, tri thriban rhagorol ar y brig y tro hwn. Bu'n anodd iawn dewis rhyngddynt.

> Mewn ennyd, mae'n wanwynol
> a'r blagur yn rhagorol,
> ond gaeaf ddaeth i strydoedd Kyiv
> 'r ôl llif o gyrchoedd marwol.

*Rhiwgoch*

Mae Rhiwgoch wedi gwneud defnydd arbennig o'r grefft o gyferbynnu mewn pennill pedair llinell. Mae'r gwanwyn hardd a welwn ni yn ei flodau ar begwn gwahanol i'r colledion geir yn Wcráin. 'Llif' gwaedlyd sydd ar strydoedd Kyiv, yn hytrach na llif y blagur pinc sydd o'n cwmpas ninnau. Yn ei hanfod, mae hi'n teimlo fel gaeaf diderfyn yno. At hynny, mae triban Rhiwgoch yn esiampl berffaith o werth cynildeb mewn barddoniaeth. Mae geiriau unigol – 'blagur', 'gaeaf', 'Kyiv', 'cyrchoedd' – yn ddigon i greu delwedd, ac ymdeimlad, yn ddiamwys. Arbennig, yn wir.

> Daw rhybudd diarhebol
> bod rhew yn bwyta'r heol.
> Wrth fwydo'r tân â'i drydan drud,
> mewn ennyd mae'n wanwynol.

*Radio Gaga*

Wn i ddim a oes ystyr ddyfnach i ffugenw Radio Gaga oni bai, o bosib, ei fod yn ffan o'r grŵp Queen! Ni waeth am hynny, mae'n driban rhagorol arall, ac er nad oeddwn i'n disgwyl i'r tribanwyr gynganeddu eu hymgeision, ni allaf lai na chyfeirio at y cynganeddu cryf a naturiol, yn yr ail linell yn enwedig. Cryfder pennaf Radio Gaga (yn ogystal â bod yn gynganeddwr o safon), fel Rhiwgoch, yw'r gallu i

fynegi syniad gwreiddiol yn glir ac yn gynnil. Mae'n amlwg taw tlodi tanwydd sy'n cael sylw yma, ac mae'r syniad o 'fwydo' tân wrth i'r rhew 'fwyta'r' heol yn neilltuol. Ydy, mae'n wanwyn mewn ennyd, ond gwanwyn artiffisial rhwng pedair wal yr aelwyd yw hynny ar gost sydd, i bob golwg, yn llethu nifer o bobl yn ein cymdeithas. Radio Gaga, o ddigon, yw tribanwr mwya dyfeisgar y gystadleuaeth, a diolch yn fawr iddo.

Dwg Santa inni betrol;
mewn ennyd, mae'n wanwynol,
a chanlyn deuddeg mis o wres,
heb weled tres o wennol.

*4-bai-4*

Yn yr un modd ag Annhymhorol, mae 4-bai-4 wedi mynd ar drywydd newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae yma ddychymyg syfrdanol y tu ôl i'r ymgais hwn gan 4-bai-4. Mae'r adeiladwaith yn dra thaclus, ac wedi ennyn fy edmygedd. Yn gynta, cael petrol ar gyfer modur newydd (4 by 4, dybiaf), fel cael anrheg Nadolig. Wedyn, yr ymdeimlad o hapusrwydd, fel gyda dyfodiad y gwanwyn. Yn yr un modd â'r tribannau gorau, daw'r ergyd drymaf yn yr ail hanner. Sgil-effaith gyrru moduron o'r fath, wrth gwrs, yw bod yr hinsawdd yn twymo, a chwrs naturiol y tymhorau yn cael ei sathru. Ddaw'r wennol ddim yn ôl. Ysywaeth, dyw hon ddim yn thema anghyfarwydd, erbyn hyn. Yr hyn sy'n llai cyfarwydd yw'r modd i 4-bai-4 gyfleu niwed y defnydd parhaus o danwyddau ffosil mor ddiymdrech o gynnil, ac mewn ffordd sy'n pwyso'n gyfrwys ar y cydwybod. Dyma sy'n peri iddo fod y mymryn lleiaf ar y blaen i ddau driban rhagorol arall, y mis hwn, llongyfarchiadau mawr iddo

*Aron Pritchard*

**Enillydd Ebrill**
**Alan Iwi, Didcot**

**Cystadleuaeth mis Mai**

Limrig, yn cynnwys y llinell:

***yn ôl yr Is-bwyllgor Henebion***

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Mai at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Merched y Wawr Y Felin

**Sut i osgoi'r sgamwyr**

Yn anffodus mae cael ein sgamio yn rhywbeth cyffredin sydd wedi digwydd i nifer ohonom yn y byd sydd ohoni. Roedd yn amserol felly ein bod fel cangen yn dod i wybod mwy am seibr-ddiogelwch a sgamiau yng nghwmni Wyn Jones sydd â phrofiad helaeth yn y maes yn ystod ei yrfa hir.



Tynnodd Wyn ein sylw at y math o sgamiau sydd angen inni fod yn ymwybodol ac yn wyliadwrus ohonynt o ddydd i ddydd e. e.

- 'phishing' sef cael ein tywys at wefan gyda'r bwriad i ddwyn ein manylion neu wybodaeth bersonol
- derbyn e-bost neu neges destun oddi wrth rywun yr ydym yn ei adnabod sy'n gofyn inni ddanfon arian atynt
- derbyn galwadau ffôn ffug e.e. gan fanc neu gwmni band eang, Microsoft, HMRC ayyb
- derbyn e-byst neu negeseuon testun ffug yn nodi ein bod wedi cael ein hacio, wedi derbyn parsel neu bod ad-daliad treth yn ddyledus inni
- defnyddio codau QR ffug ar beiriannau talu am barcio

Mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd!

Felly er mwyn cadw yn ddiogel ar-lein roedd yn ein hannog i:

- ddefnyddio meddalwedd gwrth-feirws
- holi am fanylion y banc sy'n ein ffonio
- defnyddio cyfrineiriau sydd yn anodd eu hacio
- defnyddio rheolwr cyfrineiriau
- pwyllo a meddwl cyn ymateb

Rhannodd esiamplau o'r sgamiau cyffredin sydd wedi digwydd - clicio ar ddolen mewn e-bost neu rannu cyfrinair dros y ffôn. Diolch yn fawr i Wyn am noson ddifyr ac addysgiadol a fydd o fudd inni i gyd.

Beth am ymuno â ni ar gyfer ein cyfarfod nesaf nos Iau 17 Mai sef noson trefnu blodau gyda Kevin Davies gyda chyfle i ennill tusw o flodau ar y noson?

Rydym yn cwrdd am 7.30 yh ar drydydd nos Iau y mis yn festri Capel y Methodistiaid, Ffordd Kelston, yr Eglwys Newydd. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Cyfnod cyffrous i chwaraeon merched yng Nghymru

Yn ddi-os mae'n gyfnod cyffrous i chwaraeon merched yng Nghymru gyda chynnydd sylweddol yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn amrywiol gampau, sy'n gwylio gemau yn fyw a'r sylw di-gynsail i chwaraeon merched ar y cyfryngau.


Gerddi Soffia

Yn ystod mis Gorffennaf bydd tîm pêl-droed merched Cymru yn chwarae mewn prif gystadleuaeth am y tro cyntaf yn yr Ewros yn y Swistir. Ar ôl curo Gweriniaeth Iwerddon yn y gêm ail-gyfle yn Nulyn ym mis Rhagfyr, bu perfformiadau calonogol iawn yng Nghynghrair y Cenhedloedd Merched UEFA 2025. Er colli yn erbyn yr Eidal ym mis Chwefror ac yn erbyn Denmarc yng Nghaerdydd ym mis Ebrill yr oedd arwyddion gobeithiol iawn yn y modd yr oedd y tîm yn chwarae. Yn wir cafwyd dwy gêm gyfartal arbennig yn erbyn Sweden yn Wrecsam yn Chwefror ac oddi cartref yn Gothenburg ym mis Ebrill.

Rhaid cofio bod yr Eidal, Denmarc a Sweden yn llawer uwch na Chymru yn rhestr detholion FIFA, felly mae'r perfformiadau diweddar yn rhoi hyder i gefnogwyr y tîm cyn yr Ewros yn yr haf. Mae llwyddiant y tîm wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y torfeydd – yr oedd bron i 17,000 yn y gêm allweddol yn erbyn Iwerddon yng Nghaerdydd fis Rhagfyr. Mae dros 7,000 o docynnau wedi gwerthu i gefnogwyr Cymru ar gyfer yr Ewros yn y Swistir – y mwyaf i unrhyw wlad heblaw am y Swistir. Felly bydd cefnogwyr y Wal Goch yn amlwg iawn yn y Swistir ym mis Gorffennaf.

O ran criced, mae 2025 yn flwyddyn hanesyddol i griced merched yng Nghymru yn sgil sefydlu tîm Merched Morgannwg. Yr haf hwn yn ogystal ag yn 2026 bydd tîm y merched yn chwarae yn y cystadlaethau Haen 2 dan oruchwyliaeth Bwrdd Criced Cymru a Lloegr cyn i dîm Morgannwg gael ei ddyrchafu i'r cystadlaethau Haen Un ar gyfer 2027. Bydd y tîm wedi'i leoli yng Ngerddi Soffia, cartref Clwb Criced Morgannwg. Cafwyd buddugoliaeth gyffrous yn y gêm gyntaf yn erbyn Sussex ym mis Ebrill yng Ngerddi Soffia. Y gobaith yw y bydd y gemau yn denu torfeydd teilwng i'w gwylio.

O ran torfeydd rhaid cyfeirio at y dorf o dros 21,000 oedd yn bresennol i wylio tîm rygbi merched Cymru yn erbyn Lloegr yn Stadiwm y Principality ddiwedd mis Mawrth. Er bod Cymru wedi colli'n drwm o 67-12, dyma'r dorf fwyaf i wylio unrhyw ddigwyddiad chwaraeon merched yng Nghymru erioed.

Y gobaith yw y bydd llwyddiant ar y lefel uchaf yn arwain at barhad yng nghynnydd y torfeydd fydd yn gwylio campau'r merched ac hefyd yn y nifer sy'n cymryd rhan.

## Hanes fy hen dad-cu



Wrth dwrio drwy hen bapurau'r teulu, cefais hyd at beth gwybodaeth ynglŷn a fy hen dad-cu.

Roedd Gruffydd Thomas yn byw yng Ngwm Dâr ac yn brif beiriannydd gwaith glo Y Bwllfa. Cafodd ei fagu ym Mhontarddulais. Symudodd i Gwm Dâr tua 1866 ac ysgrifennodd gerdd am ei alar am orfod gadael ei ardal enedigol.

Roedd yn un o nifer o feirdd werinol ei ardal a'i ffug enw oedd Gutyn Hydref. Rwy'n credu y bu yn cwrdd ag eraill yn Y Farmers, tafarn ym Mhontarddulais a gafodd ei gadw gan ei dad-cu. Ar ôl symud i Gwm Dâr, bu ef, ei frodyr a'i ffrindiau yn cwrdd i farddoni a chanu. Roeddynt yn rhan o Gôr Mawr Caradog a aeth i Lundain gan ennill ym 1872 a 1873.

*Isobel Carter*

Atgofion Mebyd

Pan y meddyliwyf am y pryd
Yr oeddwn blentyn bychan,
A'm gruddiau fel y rhosyn coch,
Yng nghanol tlysni anian,
Cawn gymwynas yr aml rhi',
A gwenau y goreuon,
Ac ymddigrifwn innau'n llon,
Ar aelwyd y chwedleuon.

Telorai'r awel rhwng y dail,
Orchuddiai'r hen bren celyn;
A'r ceiliog du a'i felys gerdd,
Yn pyncio ar ei frigyn;
Ac ar y llwyni ger fy ngardd,
Yr adar fai'n ymresymu;
A'r bardd a eiliai newydd gân,
Tra byddai nos yn nesu.

O fryniau heirdd a dolydd gwyrdd,
Hen bentref Pontarddulais,
Maent yn dylifo i fy nghof,
Ddedwyddaf dymor dreuliais;
Rhof ffarwel byth i'th greigiau certh,
Nid digwydd y caf dreulio,
Un orig rhwng dy fryniau ban,
Pa fudd, pa les im wylo?

*(Y Gwladgarwr, 27 Ionawr 1866)*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1) Ar ddechrau blwyddyn dreth newydd, dyma grynodeb sydyn o'r lwfansau treth i'w cadw mewn cof eleni:
   a. **Lwfans personol**: £12,570 yw cyfanswm yr incwm y gall unigolyn ei ennill cyn dechrau talu treth incwm.
   b. **Lwfans cynilo personol**: mae swm yr incwm llog y gall unigolyn ei dderbyn yn ddi-dreth yn flynyddol yn parhau i fod yn £1,000 i drethdalwyr cyfradd sylfaenol a £500 i drethdalwyr cyfradd uwch (gyda chyfraddau llog yn parhau'n uchel, bydd mwy o drethdalwyr angen talu treth ar eu hincwm llog).
   c. **Lwfans treth ar eiddo**: mae hyn yn parhau i fod yn £3,000. Os ydych yn berchen ar bortffolio o gyfranddaliadau, bydd rhaid i chi fod yn ofalus os ydych am osgoi croesi'r trothwy di-dreth wrth werthu cyfranddaliadau.
   ch. **Lwfans ISA**: er y sibrydion yn y wasg o newidiadau posib i'r lwfans yma, mae'n parhau i fod yn £20,000.
   d. **Lwfans pensiwn blynyddol**: yr uchafswm y gallwch gyfrannu i'ch pensiwn mewn blwyddyn treth yw £60,000 (neu gyfanswm eich incwm, p'un bynnag un sydd isaf). Ond, os ydych wedi dechrau cymryd incwm pensiwn, neu os ydych yn ennill incwm uchel, gall y lwfans yma gael ei gyfyngu i swm sydd cyn lleied â £10,000.
2) Mae cyfraddau llog y Swyddfa Dreth am dalu biliau treth yn hwyr wedi codi o 7% i 8.5% o 6 Ebrill 2025. Dyw'r Swyddfa Dreth ddim o reidrwydd yn anfon nodyn i'ch hatgoffa i dalu biliau treth, felly rydym yn annog trethdalwyr i gofnodi eu taliadau treth yn eu dyddiaduron er mwyn osgoi cosbau llog uchel.

***Cwestiynau Huw ac Aled***

C: *Mae fy modryb oedrannus bellach yn byw mewn cartref gofal. Mae ganddi Atwrneiaeth Ariannol Barhaol (Lasting Financial Power of Attorney) ac rwy'n un o'r atwrneiod. Sut mae modd inni ddechrau defnyddio'r Atwrneiaeth?*

A: Os oes ganddi allu meddyliol o hyd, dylai llythyr oddi wrth eich modryb at y sefydliadau ariannol gwahanol yn eich awdurdodi i weithredu fel ei hatwrnai fod yn ddigonol.

Os nad oes ganddi allu meddyliol erbyn hyn, y camau cyntaf yw i gysylltu â rheolwr y cartref gofal a chael asesiad gan feddyg i gadarnhau nad oes ganddi allu meddyliol, a gofyn am lythyr i gadarnhau hynny. Gellir wedyn cyflwyno'r llythyr yma i'r sefydliadau ariannol gwahanol. Unwaith bydd hynny wedi'i gadarnhau, mae modd i chi weithredu fel ei hatwrnai.

Mae'r canllawiau ar wefan Gov.uk yn nodi:

> *Gwneud penderfyniadau er budd gorau yr unigolyn:*
> *Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniadau byddwch yn eu gwneud ar ran rhywun fod yn iawn iddyn nhw ac mae angen i chi ystyried yr hyn y byddent wedi'i benderfynu, pe gallent, yn seiliedig ar eu gwerthoedd a'u dymuniadau.*

Bydd bodolaeth y ffurflenni Atwrneiaeth Ariannol Barhaol yn gwneud eich bywyd llawer haws ac yn sicrhau y gallwch ofalu am anghenion ariannol eich modryb oedrannus.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## Huw Boucher yw Enillydd Ysgoloriaeth Nansi Richards 2025

Roedd pedwar telynor o fri yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni a hogyn o Benarth enillodd y wobr o £1,500.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Ysgoloriaeth Nansi Richards eleni yn Galeri, yng Nghaernarfon yn ystod Gŵyl Delynau Cymru ar 15 Ebrill. Cynigir yr Ysgoloriaeth hon i delynorion/telynoresau o dan 25 mlwydd oed, sy'n byw yng Nghymru neu wedi eu geni yng Nghymru.



*Huw Boucher, Elinor Bennett a Dafydd Roberts*


Y delynores enwog, Elinor Bennett, oedd yn beirniadu eleni. Er bod y cystadleuwyr i gyd wedi rhoi perfformiad gwych, dim ond un enillydd oedd, sef Huw Boucher, ac roedd y beirniad wedi cael ei syfrdanu gan ei berfformiad.


Mae Huw yn bwriadu defnyddio'r arian i helpu tuag at gostau astudiaethau wrth wneud ei radd Meistr yn yr Academi Gerddoriaeth Frenhinol yn Llundain.

Dros y blynyddoedd mae'r Ysgoloriaeth wedi cyfrannu cyfanswm o £41,000 i sawl telynor sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn eu gyrfa gerddorol. Ym 1976 cynhaliwyd cyngerdd teyrnged i Nansi Richards, Telynores Maldwyn, yng Nghorwen a hithau yn y gynulleidfa. O elw'r cyfarfod hwnnw sefydlwyd cronfa, a ffurfiwyd Ymddiriedolaeth i ofalu am yr arian. Cynhaliwyd yr Ysgoloriaeth gyntaf yn 1983 ac mae'r Ysgoloriaeth wedi parhau ers hynny. Mi fyddai Nansi wedi bod yn hynod o falch o'r Ysgoloriaeth, sydd yn gymorth mawr i delynorion ifanc a dawnus.

*Eleri Williams*

## Rhif: 252



**Ar Draws**
1. Talu 'nôl i'r ladi ffôl (4)
3. Man go bur yn gallu troi yn ewynnog (8)
9. Gwawdio gwlff y tri môr ar yn ail (5)
10. 'Dywedwch ----- y Duwdod,
Yr un ----- yw'r Iawn i fod' (RW) (5)
11. Pwrs gwag? (4,8)
13. Cymell cysgod di-ben-draw yw'r gri ddigalon (6)
15. Trafod di-ddiwedd rywsut yn dilyn diwedd gwers am le i gadw pethau (6)
17. Nos o raid i Dei gyda'r hen bethau (12)
20. Gwenyth falle yn dal lle i'r wyau (5)
21. A aeth Griff i'r cyfandir yma? (5)
22. Dilys a Bet gyda'i gilydd yn bod yn gas (8)
23. Gwenllian yn dal 19 (4)

**I Lawr**
1. 'Ac wrth feddwl am fy Nghymru
----- ----- i 'nghalon i' (DI) (3,5)
2. Yn ddyfal ddechrau anwybyddu sylwadau twp un dyn (5)
4. Sut gornel sy'n dal offeryn? (6)
5. '----- ----- awr ymlaen
Heb alwad is y ne'' (WW) (4, 7'1)
6. Gwledd briodas noswaith cynt bron (7)
7. A wnaeth hwn redeg o Nyth Brân? (4)
8. 'I Dduw ----- -----! Mawr bethau a wnaeth!
Cans carodd a rhoddodd ei Fab dros y caeth' (cyf EHG) (2'1, 9)
12. 'Mwynach na hwyrol garol
O glochdy -----' (RWP) (8)
14. Lle i dorchi llewys yn y gwlith er enghraifft (7)
16. Y tŷ i'r claf yn dilyn torri bys (6)
18. A darn wedi torri yn y dosbarth (5)
19. Darn o dir ym meddiant dyn y stryd (4)

**Enillydd Croesair Rhif 250**
**Rhodri Jones, Penarth**

**Atebion Croesair Rhif 250**
**Ar Draws**
7. Anwylo 8. Bugail 10. Ofnadwy 11. Dan dy 12. Adar 13. Drain 17, Gwlad 18. Bara 22. Telyn 23. Dilynwr 24. Mewian 25. Gwraig
**I Lawr**
1. Darogan 2. Gwinllan 3. Cludo 4. Llundain 5. Maint 6. Clwyd 9. Cymru ar dy 14. Cwynfan 15. Iawndal 16. Mawryga 19. Stamp 20. Clawr 21. Tlawd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mehefin, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Merched y Wawr Caerdydd

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Merched y Wawr Cangen Caerdydd ar ddechrau sesiwn 8 Ebrill. Roedd yn gyfle i gofio am ambell i aelod annwyl a gollwyd, neu a ddioddefodd salwch neu brofedigaeth yn ystod y flwyddyn, a hefyd i gyfarch yr aelodau newydd a ymunodd â'r gangen eleni. Yn ystod y Cyf Cyff, estynnwyd diolch i Ceri Hughes am lywio gweithgareddau'r gangen mor hwylus dros y tair blynedd ddiwethaf, ac i Shan Morgan am drefnu rhaglen o siaradwyr amrywiol a hynod ddiddorol unwaith eto. Bydd rhai newidiadau i'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf a Nia Richards fydd yn cymryd yr awenau fel ein llywydd.

Wedi i'r gwaith swyddogol ddod i ben, roedd yr ystafell yn fwrlwm o gymdeithasu wrth i bawb ganolbwyntio ar y cacennau a'r clebran. Cafwyd noson fywiog a difyr. Yr Esgob Mary Stallard fydd y siaradwr gwadd ar 13 Mai, ac ar 24 Mehefin bydd ein trip blynyddol yn mynd i Gronfa Ddŵr Llanisien lle byddwn yn mwynhau te prynhawn yn y caffi a'i olygfeydd anhygoel ac yna taith dywys o gwmpas y gronfa dan arweiniad Siân Emily.

*Joy Davies*

## Enwau lleoedd y Cymry yn y Wladfa

Bydd Gwyn Jones yn dod aton ni fel Cymdeithas Cymru-Ariannin y De-Ddwyrain i roi sgwrs ar ‘Enwau Lleoedd y Cymry yn Y Wladfa’ yng Nghapel Bethel Rhiwbeina nos Wener 9 Mai yng Nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6JJ. Bydd paned am 7 a’r sgwrs yn dechrau am 7.30pm.




Ganwyd Gwyn Jones yn Rhuthun, a threuliodd ei blentyndod yn Nyffryn Conwy, lle daeth ei edmygedd tuag at gyfoeth daearyddol y lle, yn enwedig mynyddoedd Eryri, a’i gariad at ei wlad a’i iaith, yn hwb i’w gymhelliant ar gyfer ei yrfa academaidd broffesiynol ym maes Gwyddorau Tirfesur a Mapio. Graddiodd ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain â BSc (Anrh.) Gwyddorau Tirfesur a Mapio. Parhaodd â’i astudiaethau ym Mhrifysgol Cymru, Bangor gan ennill MSc. Rheolaeth Adnoddau Cefn Gwlad.

Bu’n gweithio mewn gwledydd amrywiol ym maes Cartograffeg Ddigidol a Thirfesur: sef Sweden, Sawdi Arabia, Cymru, Lloegr yn ogystal â Phatagonia (Chubut).

Cysylltiad cyntaf Gwyn gyda'r Wladfa oedd ym 1995 pan aeth yno er mwyn ei hadnabod. Bu yno sawl gwaith ers hynny gan fyw yno am gyfnodau gwahanol am tua 12 mlynedd i gyd gan sefydlu ei gartref gyda Mónica Jones (athrawes a bardd). Mae ganddynt dri o blant: Geraldine, Macsen a Morgan.

Pan ddaw enw lle i’w sylw, mae ganddo ysfa fawr i wybod ble mae! Cychwynnodd gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd a'u lleoliadau daearyddol ym 1995 gan ddechrau ar y gwaith mapio digidol yn 2012 cyn creu'r fersiwn argraffedig cyntaf yn 2023.

Ar hyn o bryd, mae Gwyn a’i deulu wedi ymgartrefu yng Ngogledd Cymru ac mae’n parhau â’i ymchwil i gyfrannu ac i gyfoethogi archif hanesyddol y Wladfa Gymreig.

*Dafydd Griffiths*

## Enillwyr gwobrau Wil Petherbridge a Berwyn

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn falch o gyhoeddi mai enillwyr gwobrau’r Gymdeithas am y gwaith cyfieithu gorau yn arholiadau’r Gymdeithas yn 2024 yw Sarah Boyd a Rhys Ifor.

Sarah Boyd sy’n ennill Gwobr Berwyn am ei gwaith cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg yn arholiadau’r Gymdeithas, tra bod Rhys Ifor yn ennill Gwobr Goffa Wil Petherbridge am ei waith yn cyfieithu o’r Saesneg i’r Gymraeg

Roedd arholwyr y Gymdeithas yn ystyried gwaith pawb safodd arholiadau’r Gymdeithas yn ystod 2024 (Gwanwyn a Hydref) cyn dod i’w penderfyniad.



Cyflwynir Gwobr Berwyn i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol drwy gyfieithu i'r Saesneg. Mae'n anrhydeddu Berwyn Prys Jones a fu'n Gadeirydd y Gymdeithas am fwy na chwarter canrif ac a oedd yn arweinydd ysbrydoledig ar fyd cyfieithu yng Nghymru.

Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru er cof am ei chyn-Ysgrifennydd ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru. Mae’r wobr yn arwydd o werthfawrogiad y Gymdeithas o’r holl waith a wnaeth Wil, yn enwedig wrth sefydlu’r drefn arholi.

O Landeilo daw Sarah yn wreiddiol, gan raddio gyda gradd BA mewn Ffrangeg ac Eidaleg, ac yna MA mewn Astudiaethau Cyfieithu, o Brifysgol Caerdydd. Mae hi wedi gweithio i Business Language Services Ltd am dros wyth mlynedd ac erbyn hyn hi yw Uwch Swyddog y Gymraeg yn y cwmni.

Cafodd Rhys Ifor ei fagu yng Nghaernarfon gan dderbyn ei addysg yn Ysgol Syr Hugh Owen, cyn symud i Gaerdydd i wneud cyrsiau BA Hanes ac MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae wedi bod yn cyfieithu ers bron i bum mlynedd gan gychwyn yng nghwmni Cyfieithu Clir cyn symud ymlaen i weithio yn adran gyfieithu Amgueddfa Cymru, ac erbyn hyn mae’n gweithio fel Uwch-gyfieithydd yn uned gyfieithu Prifysgol Caerdydd.

*Gwyn Williams*

## Mis Mai gyda'r Mentrau

Mae Menter Iaith Bro Morgannwg wedi croesawu dau aelod newydd i'r tîm yn ddiweddar – Aled Wyn Phillips fel Rheolwr Gwasanaeth a Gwen Davies fel Swyddog Gweithgareddau Cymunedol. Bydd y ddau yng nghanol y bwrlwm yng Ngŵyl Fach y Fro felly dewch draw i Ynys y Barri i ddweud 'Helô!'

Dydd Sadwrn, 17 Mai yw diwrnod yr ŵyl eleni a'r lein-yp gwych yn cynnwys Tara Bandito, Bwncath, Gai Toms, Dadleoli, Taran, Dagrau Tân, Do Rei Mi a phlant a phobl ifainc o ysgolion y Fro. Wedi llwyddiant eu cynhyrchiad o *Les Misérables*, mae disgyblion Ysgol Bro Morgannwg wedi dysgu detholiad o'r caneuon i blant o ysgolion cynradd y sir. Mae cryn edrych ymlaen at eu perfformiad mawreddog pan fydd pawb yn dod at ei gilydd i gyd-ganu.

Gall ymwelwyr â'r ŵyl hefyd fwynhau gwledd i'r glust a'r llygad gan y cwmni theatr a dawns Kitsch n Sync Collective a'r band gwerin amgen, Lo-fi Jones, sydd wedi cydweithio i greu sioe unigryw.

Boed law neu hindda bydd hi'n ddiwrnod llawn hwyl gyda'r stondinau amrywiol yn gwerthu crefftau, llyfrau a bwydydd o bob math.

### *Sgwrs y Mis (Zoom)*

Natur a chanfyddiad lliw fydd dan sylw yn ein sgwrs nesaf yng nghwmni'r gwyddonydd, yr Athro Deri Tomos nos Iau, 22 Mai. Awn ar daith o gyfnod yr Hen Roegiaid drwy fyd ffasiwn a fideo, i'r ymchwil diweddaraf i'r ymennydd. A ydym i gyd yn canfod yr un lliwiau? Bydd Kyffin Williams a'i brofiad o epilepsi yn rhan fach o'r hanes, heb sôn am ddawn ambell ferch i weld lliwiau mewn dimensiwn gwahanol i'r gweddill ohonom. Pris: £5 y sesiwn neu £20 am weddill 2025.

### *Gweithgareddau awyr agored*

Dros fisoedd y gaeaf, rydym wedi mwynhau nifer o deithiau tywys dan do fel yr un diweddar ag Archifau Morgannwg. Yn ystod yr haf, byddwn yn manteisio ar y cyfle i gael ychydig o awyr iach gyda nifer o weithgareddau awyr agored wedi'u trefnu gan ddechrau gyda sesiwn Cerdded a Chlonc ym Mharc y Rhath fore Mawrth, 20 Mai.

Eleni am y tro cyntaf cynhelir sesiynau Cerdded a Chlonc am 6.00 yr hwyr er mwyn rhoi cyfle i bobl ddod am dro ar ôl gwaith. Yn ogystal, bydd nifer o deithiau tywys ar y Sul gan gynnwys Taith Tafwyl yn ardal Llanisien, ddydd Sul, 8 Mehefin; taith hanes ym Mhontypridd yng nghwmni Wil Morus Jones brynhawn Sul, 27 Gorffennaf a thrip cwch i Ynys Echni fore Sul, 31 Awst. Byddwn hefyd yn ymweld â Gardd Berlysiau y Bont-faen, nos Iau, 26 Mehefin i glywed hanes yr ardd a'i phlanhigion. Prisiau yn amrywio.

### *Plant a Phobl Ifainc*

Wedi llwyddiant y tymor cyntaf, bydd y Clwb Gwyddbwyll yn parhau i blant ym mlynyddoedd 2-6, bob prynhawn Gwener am 3.45 yn Hyb Treganna. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim.

Cofiwch fod Amser Stori yn cael ei chynnal mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a'r Fro. Noder bod y sesiynau newydd, bob yn ail wythnos yn Hyb Rhydypennau, bellach yn dechrau am 10.30 yn lle 11.00.

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

**Cadwch y dyddiad**:

Mewn Tiwn, Canolfan Beulah – bore Llun, 9 Mehefin am 11.30 yng nghwmni 'Dwy' (Enlli a Lleucu Parri)

Tafwyl - 13 a 14 Mehefin, Parc Bute

Y Cwis Mawr (siaradwyr newydd) – nos Iau, 17 Gorffennaf, 6.00yh yn Snails, Rhiwbeina

*Rachel Matthews*

